

# CLONC

www.clonc.co.uk

ISSN 1753-1071



Rhifyn 286 - 60c  
Medi 2010

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanyrcrws ac Uwch Gaeo a Phencarreg

## Canlyniadau Sioe Cwmsychpant



Tudalen 15

## Cadwyn cyfrinachau yr ifanc



Tudalen 14

## Canlyniadau Sioe Gorsgoch



Tudalen 21

## Anrhydeddu Pobl Lleol yn y Sioe



Gwobr Myfyriwr y Flwyddyn CAFC - Angharad Haf James, Castell Du, Llanwnnen yn derbyn y gwobr o law Llywydd y Sioe, Dai a'i wraig Olwen Jones, ynghyd â'r noddwr Dai Davies ar ran 'The Federation of Small Businesses'.

## Ymddeoliad



Yn torri'r gacen ar achlysur eu hymddeoliad mae Huw a Liz Jenkins, Pennaeth a Phennaeth y Cyfnod Sylfaen Ysgol Ffynnonbedr. Rhwng y ddau roedd ganddynt 52 o flynyddoedd o wasanaeth i'r ysgol. Gyda hwy mae eu hŵyr, Daniel ynghyd ag Eifion Evans, Cyfarwyddwr Addysg.

## Coron i Karen



Nigel Davies Pennaeth Busnes Amaethyddol Banc HSBC dros Gymru yn derbyn yr anrhyddedd o fod yn Aelod o Gymdeithas Sioe Frenhinol Cymru o law ei dad Cyril Davies, Cadeirydd y Gymdeithas yn cyflwyno yr anrhyddedd o fod yn Gymrawd o Gymdeithas Sioe Frenhinol Cymru i Mrs Margaret Dalton.



Cyril Davies, Cadeirydd y Gymdeithas yn cyflwyno yr anrhyddedd o fod yn Gymrawd o Gymdeithas Sioe Frenhinol Cymru i Mrs Margaret Dalton.



Enillydd Coron Eisteddfod Rhys Thomas James, Llambod oedd Karen Owen, Caernarfon. Gwelir Karen gyda merched Ysgol Llanwenog a fu yn ei chyfarfarch gyda dawn.



# Sioeau lleol



Llywyddion Sioe Gorsgoch Mr a Mrs Geraint Evans yn cyflwyno cwpannau i'r enillwyr y babell – Gwaith llaw - Sali Rees, Llanarth; Tarian i'r ysgol a'r nifer fwyaf o bwyntiau Ysgol Cwrtnewydd; Coginio - (cydradd) Gwyneth Morgans ac Eleri Davies, Gorsgoch; Ysgol Gynradd - Iwan Evans, Blaencwrt; Ffotograffiaeth - Luned Jones, Blaencwrt; Cynnyrch Gardd – Aeron Davies, Cribyn hefyd fe enillodd nifer fwyaf o bwyntiau yn y babell; Blodau - Andrew Davies, Llandysul; Cyffaith - Pamela Davies; Cwrtnewydd; Adran dan 18 - Gwawr Hatcher, Gorsgoch.



Rhai o enillwyr y Babell yn Sioe Cwmsychpant gyda Llywydd y Sioe, Dennis Davies, Esgerddedwydd a gyflwynodd y cwpanau iddynt. O'r chwith – Lloyd Edwards, Penrhyncoch, Plant Ysgol Uwchradd dan 17oed – Meinir Davies, Caerwenog, Ffotograffiaeth – Wendy Jenkins, Cwmsychpant, Gwaith Llaw - Joan Jones, Llambled, Blodau - Sarah Humphreys-Jones, Alltyblaca, Coginio – Wendy Davies, Caerwenog a Chynnyrch Gardd – Aeron Davies, Cribyn.

## Codi arian i achosion da



Mali Evans ac Annwen Evans yn trosglwyddo sic o £2010 i Nyrs Chemotherapi Ward Meurig Ysbyty Bronglais, Rhian Jones. Codwyd yr arian drwy gynnal noson Bingo a drefnwyd gan Annwen yng Nghlwb Rygbi Llanybydder yn ddiweddar. Roedd £750 yn rhoddedig gan Marian Jones, Banc Barclays o dan y cynllun £ am £. Yn y llun hefyd mae teulu Mali Evans.



“Cneifio Llambled” yn rhannu £500, Iwan Jenkins yn rhoi £250 i Kim Williams ac Elen Morgan ar ran Turner Syndrome a Geraint Williams yn rhoi £250 i Jeff a Rhian Evans ar ran Ward Meurig, Ysbyty Bronglais. Hefyd yn y llun mae eu cefnogwyr.

## Disgyblion campus yn serenu



Disgyblion Lefel A Ysgol Gyfun Llambled. Rhes flaen - Claire Langley AAA; Michelle Pugh AAA; Sian Jenkins AAB. Canol -Sarah Janes AA; Rhian Thomas A\*A\*A; Jane Davies A\*AA; Victoria Lee AAA; Catrin Jones A\*AB. Rhes ôl - Rory Rebbeck AAB; Chris Ashton AAB; Aled Wyn Thomas A\*A\*A; Seb Lee A\*AAA; Eden Davis A\*A\*A; Tomas Harris A\*A\*AA.



Disgyblion Ysgol Gyfun Llambled a wnaeth yn arbennig o dda yn eu harholiadau TGAU: o'r chwith - Ruth Davies 5\* 6A; Carwen Richards 1\* 8A; Libby Jones 6\*5A; Adam King 2\* 5A 2B; Bethan Hardy 4\* 3A 4B; Lisa Thomas 1\* 6A 4B; John Janes 4\* 4A 2B; Savannah Davies 3\* 6A 1B; Nicola Miles 5\* 6A 1B; Fiona Messer 9\* 2A.



# Pwy yw pwy?

## Golygydd:

Medi: Marian Morgan, Glasfryn, Drefach 480490  
Hydref: Rhian Lloyd, 12 Bro Ddewi, Ffoeffin 01545 571234  
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tim Golygyddol: Elaine Davies, Dylan Lewis, Rhian Lloyd a Marian Morgan

Dylunydd: Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015  
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590  
e-bost: bedwyr@btopenworld.com

Teipyddion Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015  
Joy Lake, Llambled

## Gohebwyr Lleol:

Cellan Meinir Evans, Rhydfechan 421359  
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922  
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015  
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies  
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507  
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238  
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856  
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407  
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesffynnon 493325  
Llanllwni Dewi Davies, Glanafon 480218  
Llanwnnen Meinir Ebbsworth, Brynamllwg 480453  
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257  
Pencarreg Linda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

# Beth yw beth?

## Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349  
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk  
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Glasfryn, Drefach 480490  
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015  
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015  
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ceidwad y Camera Janet Evans, Haulfryn, Llambled 422856  
Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644

Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes. Mae cyfraniad pob un yn bwysig.

- Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: [www.clonc.co.uk](http://www.clonc.co.uk) os am fwy o wybodaeth.
- Beth am ddod yn ffrind i Clonc ar wefan gymdeithasol facebook: [www.facebook.com/clonc](http://www.facebook.com/clonc)
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwy i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol.
- Gellir gadael newyddion tu ôl y cownter yn siop bapurau Caxton Hall, Llambled.
- Gellir e-bostio newyddion at y golygydd yn syth: [golygydd@clonc.co.uk](mailto:golygydd@clonc.co.uk)
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i [ysgrifennydd@clonc.co.uk](mailto:ysgrifennydd@clonc.co.uk)
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrifio i Clonc am £15 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.
- Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

# Siprys

## Ail ddechrau.

Rwy'n gweld hi'n anodd ail gydio mewn gwaith wedi seibiant. Mae dyn fel peiriant – heb waith mae'n dechrau rhydu. Rhaid ail afael yn y gwaith a cheisio cael gafael mewn deunydd ffres.

## Eisteddfod Genedlaethol.

Bu llawer o'r ardal yn cymeryd rhan a braf o beth oedd gweld hynny. Hyfryd oedd darllen y 'cyfansoddiadau' a gweld fod yna gysylltiadau lleol. Un enw sy'n ymddangos yn rheolaidd yw un Huw Evans, Cwrtnewydd. Daeth ei deyrnged i John Roderick Rees i'r brig gyda channoliaeth deilwng iawn. Da oedd gweld cynrychiolaeth dda o ddalgylch 'Clonc' ymysg aelodau'r Orsedd yn y seremonïau ac yn cystadlu ar y llwyfan.

## 'Grim' yw'r gair.

Mae'n hawdd iawn beirniadu pobl am wneud camgymeriadau. Diolch fod dau neu dri yn cywiro fy ngwaith i cyn yr ymddengys yn 'Siprys'. Pam felly nad oes rhywun yn edrych dros arwyddion cyn eu gosod yn eu lle yn ein trefi. Dyma un a welais ar beiriant talu am barcio ger Llyfrgell y Dre yn Llambled – "Taliadau newydd yn grim yn awr." Mae'n drueni nad oes rhywrai i adolygu deunydd cyn yr ymddengys o flaen y cyhoedd. Rhag ofn nad ydych yn gweld dim o'i le ar yr arwydd hwn – "mewn grym", ddylasai fod.

## A\*

Am y tro cyntaf ceir gradd newydd A\* am waith mewn arholiadau Lefel A. Da iawn pob un sydd wedi llwyddo yn eu harholiadau. Tybed a ydym weithiau yn rhoi gormod o sylw i'r bechgyn a'r merched talentog iawn, heb ganmol llwyddiant y

rhai llai abl, sydd wedi ymdrechu yn galed iawn ac yn cael graddau llawer is. Os na chawsoch lwyddiant ysgubol cofiwch fod na lawer iawn o bobl yn llwyddo mewn meysydd ac heb basio yr un arholiad.

Mae personoliaeth hyfryd a pharodrwydd i weithio yn werth A\* i bob yr un ohonoch.

## Siarad Cymraeg

Do fe fu bron i mi ddod i drwbwl am siarad yr iaith. Flynyddoedd yn ôl a minnau ar ben wythnos gyda milwyr eraill mewn canolfan yn yr Almaen, cwrddais â merch o ardal Llandysul oedd newydd briodi, ac yn eithaf hiraethus am adre. Roedd cyfle i siarad Cymraeg yn lleddfu tipyn ar yr hiraeth. Daeth un o'm ffrindiau ymlaen ataf a sibrd yn fy nghlust, "Taff", meddai "mae gŵr y ferch ma bron mynd yn wallgo wrth y bar, nid yw'n deall gair o beth mae'r ddau ohonoch yn siarad amdano".

Trwy lwc cefais gyfle i dawelu'r storm. Trueni nad yw fy nghôf i yn ddigon da i gofio enw'r ferch na dim mwy o'r manylion.

## Trafferth cofio!

Ydych chi'n cael gwaith cofio enwau pobol. Mae'n anodd yn aml cael help. Cwestiwn yn aml fedr fod o gymorth yw ffeindio ble mae'r person yn byw nawr. Do, fe holais i berson yn yr Eisteddfod oedd yn gwybod yn iawn pwy oeddwn i, "Ble i'ch chi'n byw nawr? Gan obeithio y byddai o help i mi. Cefais ateb yn union "Yn yr un man". Doedd hyn ddim o help ond deallais ei bod yn gweithio ym mhobell Merched y Wawr. Cefais gyfle i fynd am baned – a do fe gefais yr enw, ac fe 'wawriodd' y cyfan wedyn.

Hwyl!  
Cloncy.



Disgyblion, rhieni ac athrawon Ysgol Carreg Hirfaen ar daith gerdded Cymdeithas Rieni ac Athrawon ar yr 11eg Gorffennaf.



Clwb Ffermwyr Ifanc Cwmann oedd y tîm rygbi buddugol yn Sioe Llambled. Yn y llun gwelir Tommy Price, Llywydd y Sioe yn cyflwyno cwpan i'r tîm.



Yng nghanol y gwynt a'r glaw daeth nifer fawr o seiclwyr - 85 o blant ynghyd â 60 o oedolion - i godi arian at Uned Haemotoleg a Ward Meurig, Ysbyty Bronglais ac Adran Iau Clwb Rygbi Llambled.





## MEDI

- 4 Sioe Llandysul.
- 4 Sioe Llanyrcrws.
- 6 Mabolgampau Cwrtnewydd i ddechrau am 5:00 o'r gloch.
- 7-10 Cynhadledd Senana Bedyddwyr Cymru ym Mrhifysgol Llambled.
- 12 Trip Ysgolion Sul y Smotyn Du lawr i San Ffagan, Caerdydd.
- 13 Cynhelir Noson Agored gan Ferched y Wawr Llambled yng nghwmni Rhian Morgan a Llio Silyn yn Festri Shiloh Llambled am 7.30yh. Croeso cynnes i bawb.
- 15 Cwrdd Diolchgarwch Maesyffynnon, Llanybi am 2:00y.p. Y Pregethwr gwadd fydd y Parch Nicholas Bee.
- 17 Noson o Fingo o dan nawdd Cylch Meithrin Drefach yn Cefnhafod, Gorsgoch.
- 24 Eglwys Cellan yn cynnal Noson Goffi yn Neuadd y Mileniwm, Cellan am 7:00y.h.
- 24 Oedfa Diolchgarwch Ebenezer, Llanybi am 6:30y.h. Pregethir gan Miss Beti Griffiths.
- 25 Diwrnod Dathliad a Chôffad yn Ysgol Mydroilyn o 11y.b tan 4 y.p. Bydd yr ysgol yn croesawu cyn-staff, cyn-ddisgyblion a'u teuluoedd yn ogystal â'r gymuned leol i'r diwrnod arbennig yma.
- 26 Cwrdd Diolchgarwch 'Capel Llidiad Nenog' am 6.30 y.h.. Pregethir gan y Parchedig Llinos Mai Gordon.
- 27 Cwrdd Diolchgarwch Noddfa am 7:00y.h.
- 30 Cwrdd Diolchgarwch Eglwys Sant Cybi, Llanybi am 7:00 y.h.. Y gŵr gwadd fydd Parch J. Emrys Jones.

## HYDREF

- 1 Noson Moes a Phryn dan nawdd Urdd y Benywod, Capel-y-Bryn yn Festri Seion, Cwrtnewydd am 7:30y.h.
- 2 Noson yn y Llew Du, Llanybydder yng nghwmni'r grŵp Jac Y Do a Don Davies, Comediwr. Yr elw tuag at Ambiwylans Awyr Cymru a Sclereosis Ymledol. [MS].
- 3 Ras Hwyl Ysgol Llanwenog.
- 4 Cwrdd Diolchgarwch Capel y Bryn, Cwrtnewydd am 7:00 o'r gloch.
- 7 Sioe Ffasiwn gan Ededa J yng Ngwesty'r Emlyn, Castell Newydd Emlyn. Elw tuag at Sioe'r Cardis. Tocynnau ar werth o ddechrau Medi ymlaen.
- 7 Cwrdd Diolchgarwch Capel Seion, Cwrtnewydd am 7y.h. Parch Carys Ann, Glynarthen.
- 11 Pwyllgor Henoed Llanllwni yn cynnal 'Bingo' yn y Neuadd Gymunedol.
- 12 Cwrdd Diolchgarwch Capel yr Erw, Cellan am 7.00y.h. Pregethir gan y Parch. Beti Wyn James, Caerfyrddin. Croeso cynnes i bawb.
- 13 Cwrdd Diolchgarwch Bethel Parcyrrhos am 7:00y.h. dan ofal y Parch John Gwilym Jones.
- 17 Cystadleuaeth Bryn Terfel – Urdd Gobaith Cymru ym Mhafiliwn Bontrhydfendigaid.
- 21 Cwrdd Diolchgarwch Capel-y-Cwm, Cwmsychpant am 7:30y.h. Pregethir gan y Parch Alun-Wyn Dafis, Cei Newydd.
- 28 a 30 Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion.
- 30 Eisteddfod Gadeiriol Pumsaint yn Neuadd y Coroniaid, Pumsaint. Agored i ddechrau am 2:30y.p. Manylion pellach 01558 650292.

## TACHWEDD

- 13 Diwrnod Agored Eglwys Llanwenog 'Paned a Chlone' 2.00 -5.30.
- 20 Eisteddfod C.Ff.I. Cymru yn Neuadd Fawr, Aberystwyth.
- 27 Arwerthiant Blynyddol Capel Seion, Cwrtnewydd.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau cynnes iawn i Nia Jones, Llanfairfach ac Aled Jones, Llwyn, y ddau wedi ennill gradd ganmoladwy, Nia o Brifysgol Bangor ac Aled o Goleg Harper Adams. Pob lwc i'r ddau yn y dyfodol. Llongyfarchiadau hefyd i Seb, Tŷ Nant, ar ei lwyddiant yn ei arholiadau lefel A. Mae'n gobeithio yn y dyfodol i astudio meddyginiaeth.

Pleserus iawn oedd clywed hefyd am lwyddiant ysgubol Iris Quan, Blaencwm, yn Sioe Amaethyddol Llambled. Hi enillodd y tlws am y mwyaf o bwyntiau yn y dosbarth crefftiau. Da iawn wir.

## Babi Newydd

Bendigedig oedd clywed fod babi newydd wedi cyrraedd Tŷ Draw, Tregaron, y trydydd mab bach o'r enw Elis Peter i Deina a Jason Hockenhull, a brawd i Jac a Wil. A dyma wyr bach arall i Arwyn ac Eleri, Pentre. Pob bendith arnynt.

## Llawr y Neuadd

Mae'n dda gennym allu cyhoeddi bod llawr pren newydd y neuadd wedi ei gwblhau ac yn edrych yn fendigedig. Bu y gwaith o roi y llawr yn ei le yng ngofal Harold Lawson, y person â'r sgiliau a'r wybodaeth yn y grefft. Cafodd gefnogaeth a help gan Tony Barker, Tŷ Coch, Alan Leech, Tanyresgair, Ieuan Thomas y Felin, Dai Jones Llanfairfach ac Arwyn Davies Pentre. Diolch i Harold a'i dîm am ei gwaith arbennig o raenus. Diolch eto i bawb sydd wedi cyfrannu o'r cychwyn cyntaf mewn unrhyw ffordd dros y misoedd diwethaf i greu y llawr arbennig yma.

## Ffêt a Barbeciw

Glaw ar y dydd Gwener a glaw ar y dydd Sul ond diwrnod braf, sych i'n ffêt a'n barbeciw blynyddol ar y dydd Sadwrn. Dyna lwc! Daeth torf weddol i gefnogi'r achlysur a gafodd ei gynnal yng nghae Llanfair Fawr a'r neuadd. Diolch i Tim ac Arwyn Evans am gael defnyddio'r cae. Braf oedd cael mwynhau scones gyda mefus a hufen yn y neuadd gan ddiolch i'r gwagedd am goginio. Roedd y cae yn llawn stondinau a rhaid diolch i'r rhai a gyfrannodd atynt ac a fu yn gofalu amdanynt. Daeth Ffion, Rebecca a Daniel ag oen swci i'w enwi a da oedd gweld bobl ifanc y pentref yn cyfrannu fel hyn.

Ennillwr y ras hwyaid oedd Tony Barker, Tŷ Coch. Agorwyd y ffêt gan Mrs Ann Davies, prifathrawes Ysgol y Dderi a diolch iddi am ei phresenoldeb a'i chyfraniad hael. Diwrnod llwyddiannus eto gan ddiolch i Lesley, Glenys a Linda am yr holl drefniadau. Daeth y noson i ben gyda barbeciw, disgo a digon o ddawnsio.

## Rhywbeth Newydd



Penderfynodd y grŵp cerdded ddefnyddio eu beiciau y tro yma ac aeth tua dwsin ohonom lan i Dregaron i ddefnyddio yr hen drac rheilffordd o Maeslyn am tua phum milltir. Roedd yn ddiwrnod braf a chafwyd amser da gyda phawb yn galw yn y Talbot ar eu ffordd adref.

Menter lwyddiannus dros ben gyda phawb yn edrych ymlaen i'r tro nesaf. Diolch i Dai, Llanfair Fach am gludo y beiciau i man cychwyn y daith.

## Mis Medi

Edrychwn ymlaen nesaf at daith flynyddol y pentref sydd eleni yn mynd i Ddinbych-y-pysgod gan obeithio y bydd y tywydd yn caniatáu mynd yn groes i ynys Caldy. Croeso i bawb.



*D & C Rallying*



Rhif Ffôn 01570 434 244 / 07973 420 664  
CEIR - FANIAU - CERBYDAU 4x4

Gwasanaethu ac atgyweirio o bob math  
a pharatoi eich car ar gyfer MOT

\* Teiars o bob math \* Olew \* Filteri \* Batris \* Brêcs \*

Am bopeth i'ch car, dewch yma aton ni  
Tanrhos, Cwrtnewydd, Llanybydder Ceredigion, SA40 9YN





**Gwyn Lewis**

Cyf

Cyflenwi a gosod:  
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,  
Cladinau Wal,  
yn ogystal â Gwelyau,  
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont  
LLANBEDR PONT STEFFAN  
Ffôn a Ffacs: 01570 423984  
Adref: 01570 423349

## Cegin Coedlannau

*'Bwyd cartref ar gyfer  
pob achlysur'*

\* Cacenau pen-blwydd gyda llun  
(ffotograff)

\* Bwffe mawr neu fach

\* Dantethion i de

\* Pwdinau

\* Arlwyd ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnewydd,

01570 434 243

07815 962 045



Gall y driniaeth yma eich helpu, os  
ydych yn dioddef o'r canlynol:

\* Blinder / diffyg egni

\* Meigrin

\* Sciatica

\* Irritable Bowel Syndrome

\* Menstrual problems

\* a mwy

Os am ragor o wybodaeth  
cysylltwch â Carol Rees

01545 590164

07929 559561

## Tim Jones



**Ffotograffydd**

Llainwen, Rhodfa Glynhebog  
Llanbedr Pont Steffan

01570 422644

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol  
mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A  
MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth  
mae croeso i chi gysylltu â ni.

**Arnold Davies  
Vincent Evans**

33 Stryd Fawr, Llanbedr

01570 422517 01570 423244

# Lle aeth pawb?



Sefydliad y Merched Llanfair Clydogau a Chellan yn 1926. Beth oedd yr achlysur tybed? Unrhyw wybodaeth neu luniau diddorol eraill, cysylltwch â'r golygydd.

## Cellan

### Gwellhad Buan

Pob hwyl i Dafydd Hughes,  
Llwynberllan wedi iddo dorri ei  
benelin- mae'r plastar coch yn smart  
iawn!

Hefyd, gwellhad buan iawn i Mrs  
Penny Jones wedi ei llawdriniaeth  
diweddar.

### Noson Goffi

Ar y 24ain o Fedi cynhelir Noson  
Goffi yn Neuadd y Mileniwm,  
Cellan am 7:00y.h. gan yr Eglwys.  
Croeso cynnes i bawb.

### Arholiadau

Pob hwyl i fyfyrwyr TGAU  
a Safon Uwch Cellan wedi eu  
llwyddiant diweddar, edrychwn  
ymlaen i glywed eich hanes yn y  
Coleg.

### Priodi

Llongyfarchiadau i Rhys a Rhian,

Bayliau wedi eu priodas ar y 1af o  
Fedi ym Mhortmeirion. Pob hwyl i  
chi yn y dyfodol.

Hefyd i Nuala a William,  
Blaencwmcoy a briododd dros  
yr haf yn Eglwys Cwmann-  
llongyfarchiadau mawr iawn i chi.

### Llongyfarchiadau

Daeth llwyddiant i ran Emily a  
theulu Coedmore Hall yn y Sioe  
Frenhinol a nifer o sioeau lleol eraill  
yn ystod yr haf.

### Ymfudo

Pob hwyl i deulu Austin, Blaenau  
sy'n ymfudo i Bortiwgal i fyw.

### Barbeciw

Cafwyd barbeciw llwyddiannus yn  
y Fishers ar y 14eg o Awst a'r elw  
tuag at gronfa'r Stroke.

## Alltyblaca

### Cwrdd Pawb Ynghyd

Dydd Sul, 5ed o Fedi am 1:30 y.p.  
Cynhelir Cwrdd Pawb Ynghyd yn  
y Capel. Gwasanaethir gan y Parch  
Cen Llwyd a gweinyddir cymun  
ar ddiwedd y gwasanaeth. Croeso  
cynnes i bawb.

## Model o fri.



Merch ifanc o Gymru wedi cael  
cyfle i ddisgleirio yn Llundain.  
Roedd Rhian wedi cael ei darganfod  
gan Diesel Models ac wedi cael y  
cyfle i fynd gyda'i rhieni i Lundain  
am photo shoot. Llongyfarchiadau  
mawr i ti Rhian.



Emily Jones a Dylan Morris, Coedmore Hall a'i Pencampwr yn Adran y  
Biff Masnachol.



# Ffarmers



## Gwobrwyo Talent

Mae dau o ieuenctid yr ardal, sef Jaxom Follon, Cefn-llwyn-hir a Carwen Richards, Cwmcelyn, wedi derbyn gwobr i Blant Iau Talentog oddi wrth Cyngor Chwaraeon Ceredigion yn ddiweddar. Rhoddwyd y wobwr iddynt i gyfrannu tuag at eu costau ym myd chwaraeon. Mae Jaxom yn ffensiō a Carwen yn chwarae rygbi. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonynt sy'n ddisgyblion yn Ysgol Gyfun Llamed, ond cyn hynny o Ysgol Gynradd Carreg Hirfaen, Uned Ffarmers.

Yn ogystal, fe dderbyniodd Carwen wobwr tîm merched dan 18 Quins Caerfyrddin, am y chwaraewraig sydd wedi datblygu fwyaf yn nhymor 2009-2010. Mae Carwen hefyd yn aelod o dîm rhanbarth y Sgarlets, merched dan 18. Da iawn ti, Carwen!

## Ymchwil Cancr UK / Cymru

Diolch i bawb a gyfrannodd tuag at Ymchwil Cancr UK / Cymru, ac i'r canlynol am gasglu - Mair Williams, Rhydlydan; Jean Evans, Penarth; Marina Thomas, Caerdderwen; Alun Williams, Maesteg; Eirwyn a Heulwen Jones, Aberbranddu; Eleri Davies, Cothi Vale; Ethel Lewis, Derwen Fach; Ethel Davies, Llyshelen; a Tegwyn a Heulwen Lloyd, Penbont. Casglwyd y swm anrhydeddus o £558-84.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Carys Thomas, Penywaun a fu ar daith gyda Chôr y Tair Sir i Ffrainc yn ddiweddar Cafodd y fraint o ganu yn Eglwys Cadeiriol Meaux a Chartres, ac hefyd yn y La Madelein e yng nghanol Paris. Profiad gwych. Mae'n dda cael estyn ein llongyfarchiadau i Gwennan Evans, Glasdir unwaith eto wedi iddi ennill Ysgoloriaeth Emyr Feddyg o £1,000 fydd yn ei galluogi i dderbyn hyfforddiant arbennigol gan fardd profiadol. Yn ogystal â hyn, gwelwyd Gwennan yn nhîm 'Y Disgyblion Ysbas' yn Ymryson y Beirdd o'r Eisteddfod Genedlaethol, ac yn aelod o 'Gôr Merched y Ddinas'. Da iawn ti.

## Penblwydd Hapus

Dymuna Mrs Menna Williams, Rhosybedw ddiolch i bawb am yr holl roddion, cardiau a chyfarchion a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn 80. Penblwydd Hapus i chi.

## Dartathon ac Ocsiwn

Soniwyd yn y rhifyn diwethaf o'r Papur Bro am Dartathon ac Ocsiwn a oedd yn cael eu trefnu yn Ffarmers ar gyfer y 7fed o Awst. Wel do – bu'r digwyddiad yn llwyddiant enfawr. Cychwynwyd ar y gweithgaredd am 10.00 y bore, gyda chefnogwyr o bell ac agos yn galw heibio i'r Drovers i daflu dartiau, ac fe aeth y dartathon ymlaen tan 8.00 yr hwyr. Enillydd y dynion am y sgôr uchaf gyda chwech o ddartiau oedd Aled Green, Wernewydd, ac enillydd y merched oedd Beryl Thomas, Bryndolau. Elfyn Davies wnaeth ddyfalu agosaf i'r sgôr terfynol ar ddiwedd y dydd o 171,438. Yn dilyn y dartathon, cynhaliwyd ocsiwn fawr gyda Dylan Davies o gwmni Morgan a Davies yn arwerthu. 'Roedd amrywiaeth helaeth o eitemau ac addewidion ar werth, a'r dyrfa yn barod gyda'u cynigion. Cynhaliwyd raffl fawr a stondin boteli hefyd, a llwyddwyd i godi £3,500 tuag at Barc Bro Fana. Dymuna Cyngor y Neuadd ddiolch i bawb a gyfrannodd tuag at lwyddiant y diwrnod – y trefnwyr, chwaraewyr, pawb a wnaeth gyfrannu nwyddau i'r arwerthiant ynghyd â'r prynwyr, yr arwerthwr medrus, y rhai hynny a roddodd wobrau ar gyfer y raffl a'r stondin boteli, y gwerthwyr tocynnau, y rhai hynny a ddychwelodd eu gwobrau, a'r caredigion na fedrai fod yn bresennol, ond a anfonodd arian tuag at y digwyddiad. Diolch o galon am y gefnogaeth anhygoel.



## Salem Caio


Ar Nos Wener, y 23ain o Orffennaf, cafodd naw o ieuenctid Salem, Caio eu bedyddio gan y Parchedig Goronwy Wynne a'u derbyn yn aelodau o'r eglwys, sef Carys Thomas, Meirion Evans, Rhian Evans, Eirwyn Richards, Meirion George, Sulwen Richards, Meryl Davies, Rhian Davies a Carwen Richards. Gweler y llun, o'r chwith: Carys Thomas, Meirion Evans, Rhian Evans, Eirwyn Richards, Parch Goronwy Wynne, Meirion George, Sulwen Richards, Meryl Davies, Rhian Davies a Carwen Richards.



Elgan Evans, Bridfa Eglwysfach, Pumsaint gyda'i Eboles flwydd, Pencampwr Adran 'D' yn y Sioe Frenhinol.

## Carnifal a Mabolgampau Bro Fana

Cynhaliwyd y Carnifal a Mabolgampau blynyddol eleni ar y 14eg o Awst, a braf oedd cael croesawu Alun ac Aileen Davies, Pencader fel Llywyddion y dydd. Daliodd y tywydd drwy gydol y prynhawn, a chafwyd cystadlu brwd yn y carnifal a'r mabolgampau, gyda phêl-droed yn dilyn, a helfa drysor ar ddiwedd y dydd. Bydd adroddiad llawn a lluniau yn y rhifyn nesaf.



# Cwmann

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Sara Elan Jones, Araul ar ennill yr Unawd dan 8 oed yng Ngŵyl Fawr Aberteifi ar ddechrau mis Gorffennaf. Da iawn ti a dal ati.

## Diolch.

Dymuna Mrs Davies a'r teulu, 19 Heol Hathren ddiolch i bawb am y cardiau, blodau a'r rhoddion a phawb a fu'n ymweld â nhw ar adeg eu profedigaeth. Diolch arbennig i'r Parch Hugh Roberts am bob cydweithrediad.

## Gwellhad Buan

Gwellhad buan i Mrs Glesni Thomas, 1 Heol Hathren sydd wedi derbyn llaw driniaeth yn ddiweddar. Dymuniadau gorau i chi.

# Drefach a Llanwenog

## 18oed

Dathlodd Carwyn Evans, Murmur y Nant ei benblwydd yn 18oed yn ystod mis Gorffennaf. Pob lwc eto i'r dyfodol.

## Cydymdeimlo

Yn sydyn yn ystod mis Gorffennaf clywyd am y newyddion bod Sarah Davies, Penbryn, Llambod ond gynt o Min-y-llan ac Abertegan wedi marw. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda'i mam Mair yng Nghartref Maes-y-felin gyda'i brodyr Daff ac Ifan a'u teuluoedd ac hefyd â'i chwaer Menna allan yn yr Amerig yn eu colled.

Hefyd, cydymdeimlwn â Llyr a Cerys Jones, Glynfaes ar golli mamgu a oedd yn byw yn Saron.

## Y Gymdeithas Hŷn

Ers y rhifyn olaf o 'Clonc' bu'r aelodau ar ddau drip. Mis Gorffennaf i 'Oakham Treasures' yng nghyffiniau Bryste. Dyma beth oedd casgliad anghredadwy o bob math o drugareddau, o hoelion a phedolau i roi dan esgidiau i focus siocled a ffrogiau priodas. Ymysg offer fferm roedd tua cant o wahanol dractorau. Y cyfan o ddiddordeb mawr i'r holl aelodau ac yn fwyniant pur.

Taith tipyn yn fyrach oedd un Mis Awst i Aberystwyth, ac ymweliad â Swyddfa newydd y Cynulliad a Swyddfa Ceredigion gerllaw, ar Goedlan y Parc. Roedd yn agoriad llygad i weld yr adeiladau ac i glywed am y dulliau cynladwy o wresogi ac o gael awyr iach i'r adeiladau. Diddorol oedd deall fod y dŵr glaw i gyd yn cael ei storio o dan y maes parcio i gyflenwi'r toiledau. Clywyd hefyd am waith y gwahanol adrannau o fewn y Swyddfeydd – y cyfan yn ddiddorol ac yn addysgiadol iawn.

Ymlaen wedyn i'r Llyfrgell Genedlaethol, a chael ein tywys o gwmpas yr arddangosfeydd ac i fannau 'cudd' o fewn yr adeilad. Roedd yn fwynhad pur ac yn frain i gael gweld rhai o drysorau amrhisiadwy ein cenedl.

Bydd trip olaf yr Haf yn mynd o gwmpas Llyn Fyrnwy ar yr 8fed o Fis Medi. Y bws yn cychwyn o Llambed am 8.15. Enwau i Yvonne ar 480590.

## Sioe Frenhinol

Llongyfarchiadau i Carwyn, Gwarcoed Einion, ar ei lwyddiant yn Sioe Frenhinol Cymru gyda'r gwartheg Duon Cymreig, ac hefyd mewn llawer o sioeau eraill.

## Cylch Meithrin Drefach

Mae'r Cylch wedi bod yn brysur iawn yn ddiweddar yn codi arian ag ymweld a gwahanol lefydd.

Yn ystod mis Mehefin cynhaliwyd ein Gwthio Gwely Noddedig flynyddol, o'r Cylch yn Drefach

i'r Llew Du yn LLanybydder. Cafodd pawb bryd blasus o fwyd yno i ddiweddu Noson Hyfryd a llwyddiannus iawn. Buom hefyd am fore i'r traeth yn Aberaeron i asylwi ar gregyn a.y.y.b.

Dechrau mis Gorffennaf cawsom ymweliad gan y Deintydd i sôn am bwysigrwydd golchi dannedd, bwyta'n iach ag ymweld a'r deintydd yn reolaidd. Roedd gennym sawl deintydd bach brwdfrydig iawn erbyn diwedd y bore!!! Mae dannedd yr ardal yma mewn dwylo diogel!!! Ymweliad gyda Ysgol Cwrtnewydd am fore arall i weld yr ardd hyfryd sydd yno, a buom yn dysgu'r plant i wehyddu ar raddfa fawr drwy ddefnyddio ffens, coed a.y.y.b.

Cawsom wahoddiad i fynd i'r parc yn Llandysul am fore i gwrdd a cylchoedd eraill. Cawsom helpa drysor, stori hyfryd ar lan yr afon a tocyn cyn cyhwyn am adref. Gan ein bod wedi cael sawl bore heulog cyn i ni dorri am wyliau Haf fe wnaethom ddefnydd o'r parc chwarae lleol.

I ddiweddu'r tymor aethwyd ar wibdaith i Fferm Folly. Fel pob ymweliad cyn hynny a'r fferm arbennig yma cawsom ddiwrnod bendigedig.

Pob hwyl i Luned Jones, Beca Jones, Nathaniel Griffiths, Phoebe Prater a Ryan Parsons yn ei hysgolion newydd ym mis Medi.

## C.Ff.I. Llanwenog

Trenni am y glaw ar yr 28ain o Fehefin pam gynhaliwyd noson o chwarae coets gyda clwb Felinfach. Cawsom llawer o hwyl a cael y siawn i wneud ffrindiau newydd.

Gwnaeth yr aelodau ifanc cael noson wlyb a llawn sbort ar ddiwedd Mehefin wrth i ddau tim o'r clwb gystadlu yng nghysstadleuaeth 'it's a knockout' fforwm ieuencid y Sir. Gwnaeth y ddau tim yn hynnod o dda gan sgorio llawer o bwyntiau.

Y noson olaf wedi ei drefnu gan y clwb oedd taith i Bentre Bach Sali Mali. Roedd yn noson llawn hwyl wrth iddom wyluo bach i'r rhaglen Pentre Bach a wedyn mynd o amgylch tai y cymeriadau i weld ei cefndir. Cawsom y siawns i weld y car hynod o boblogaidd sef car Bili Bom Bom, Sabrina ac roedd Cerys Jones yn lwcus iawn o gael tro i deithio ynddi o amgylch y pentre'. Hoffwn ddiolch i'r Pentre am ein cael ni yno ar ymweliad.

Daeth wythnos Sioe Frenhinol yn fuan iawn yn ein calendar eleni eto ac roedd gan y clwb sawl aelod yn cymeryd rhan. Ar Dydd Llun y sioe roedd cystadleuaeth Hyrwyddo Clwb ymlaen gyda Gwennan Davies, Lowri Wilson, Sioned Davies a Carwyn Davies yn cymeryd rhan. Daeth llwyddiant i'r pedwar wrth iddynt ennill y gystadleuaeth. Ar fore dydd ercher gwnaeth Enfys Hatcher gystadlu yn y gystadleuaeth

Seren Wib ar lwyfan y C.Ff.I lle cafodd cryn dipyn o hwyl. Ar yr un diwrnod roedd bechgyn y clwb yn cystadlu yn y gystadleuaeth tynnu'r gelyn yng nghylch y gwartheg. Gwnaeth y bechgyn ennill erbyn rhai siroedd a colli rhai eraill ac ar diwedd y gystadleuaeth gwnaeth y bois ddod yn 4ydd.

Eleni eto cynhaliwyd ein cyfarfod blynyddol yn ysgol gynradd Llanwenog ac roedd yn amser i ethol ein swyddogion newydd am y flwyddyn i ddod. Llongyfarchiadau i'r swyddogion newydd:- Cadeirydd- Gwennan Davies; Is-Gadeirydd- Enfys Hatcher; Ysgrifennydd- Arwel Jenkins; Is-Ysgrifennydd- Lowri Wilson; Trysorydd- Gethin Hatcher; Is-Drysorydd- Aled Jones; Ysgrifennydd Cofnodion:- Sioned Davies; Llyfr Lloffion- Lauren a Sophie Jones a Gwawr Hatcher; Ysgrifennydd Rhaglen- Elin Jones; Gohebydd y Wasg- Carwyn Davies; Swyddog Gwefan- Cerys Jones. Pob lwc i'r swyddogion newydd i'r flwyddyn nesa'.

## Eglwys Santes Gwenog.

Ar nos Lun y 5ed o Orffennaf ym mhresenoldeb Archddiacon Aberteifi, yr Hybarch William Strange, a'r Deon Gwlad, Canon Aled Williams, ynghyd ag offeiriaid y Ddeoniaeth, derbyniodd y Parch Suzie Bale, ofalaeth eglwys Llanybydder Llanwenog a Llanllwni. Daeth nifer dda i'r gwasanaeth arbennig yma, rhai wedi teithio o Rydaman a Llandybie –cyn blwyfi'r Parch Suzie Bale. Bu wardeniaid y dair eglwys yn eu chyfarfod, gyda dau aelod o ysgol Sul Llanllwni. Derbyniodd groeso i'r plwyf gan y Cynghorwr Sir, Haydn Richards a Geraint Davies, Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Wirfoddol Cymorthedig Llanwenog. Mrs Pauline Roberts Jones oedd yr organyddes. Mwynhawyd lluniaeth wedi'i baratoi gan wragedd y dair eglwys a chafwyd cyfle i gwrdd ac i sgwrsio gyda'r ficer newydd. Dymunwn iddi yrfa llwyddiannus a bendithiol.

Ar ddydd Gwener y 23ain o Orffennaf daeth y newydd trist am farwolaeth Mr James Thomas

C.B.E; F.R.A.S.C, Llechwedd ar ôl cystudd hir a blin. Cydymdeimlwn yn fawr gyda'i briod Ann, a'r plant, Richard, Ana a Margaret a'u teuluoedd. Bu'r angladd breifat yn eglwys Llanwenog dan ofal y Parch Suzie Bale, a thalwyd teyrnged i'r diweddar James Thomas gan y Parchedig Goronwy Evans.

Wedi sawl wythnos o baratoi a threfnu, cynhaliwyd Gŵyl Flodau llwyddiannus iawn yn yr eglwys. Daeth nifer dda o ffrindiau ac ymwelwyr i edmygu ac i fwynhau y gosodiadau prydferth ar y thema "Ein Hoff Emynau". Diolch i aelodau 'Blodau'r Allor' am ddechongli'r emynau mor gelfydd. Gwerthfawrogi'r cyfraniadau, cefnogaeth, a brwdfrydded ffrindiau. Cafwyd gosodiadau gan C.Ff.I. Llanwenog, Sefydliad y Merched, Ysgol Llanwenog a'r Parch Eileen Davies. Ein diolch i'r gwagedd a phawb fu'n cyfrannu ac yn gweini lluniaeth yn ystod y tri diwrnod. Coronwyd penwythnos blesurus a bendithiol gyda Noson o Ganu Cynulleidfaol gyda Mrs Pauline Roberts Jones wrth yr organ a Miss Manon Richards, Lowtre yn ein harwain yn ei ffordd hamddenol a chydwybodol. Llwyddodd Manon i gael ymateb cerddorol iawn oddiwrth y cantorion. Bu'r eglwys yn atseinio i ganu bendigedig yr hen ffefrynnau, Cwm Rhondda, a Pantyfedwen heb anghofio emyn Tom Gwyn Davies 'Llanwenog'. Cafwyd eitemau ar y delyn gan ein ficer. Llongyfarchiadau i Gwennan Davies, Llysderydd ar ennill gradd M.Sc. yn ddiweddar ac i holl blant y Plwyf a fu'n llwyddiannus mewn gwahanol arholiadau. Pob hwyl hefyd i'r plant fydd yn newid ysgolion, a'r rhai fydd yn cychwyn yn yr ysgol gynradd, ac i'r 'Sêr bach' fydd yn dechrau yn y Feithrinfa yn Nhŷ'r Ysgol.

Cofiw'n awb sy'n anhwylyd a dymunwn adferiad llwyr iddynt.

Cofiwch am ein "Tê Fictorianaid" a chyfle i gael Paned a Chlonc gyda Stondin gacennau a nwyddau yn yr eglwys ar y 13eg o Dachwedd o 2.00 hyd 5.30 y prynhawn.



Pencampwr yn Adran y Charolais Benywaidd Iau yn Sioe Llanelwedd oedd J S Howells, Tycam, Llanwenog.





Meinir Evans, Cadeirydd Cylch Meithrin Coedmor yn cyflwyno siec o £454 i Hannah Chester, yr Arweinydd, Debbie Luker, Cynorthwydd a phlantos y Cylch wedi noson o godi arian yng Nghanolfan Cwmann ar y 1af o Fai. Diolch i bawb am eu cefnogaeth tuag at lwyddiant y noson.

## Sefydliad y Merched Coedmor

Cynhaliwyd ein cyfarfod ar nos Lun y 5ed o Orffennaf yn y ganolfan gyda Elma yn y gadair. Estynnodd groeso cynnes i'n gwraig wadd sef Jill Price cyn-gadeirydd y ffordarasiwn.

Cawsom ei hanes fel yr oedd wedi bod yn Ynad am bum mlynedd ar hugain, soniodd am yr holl wahanol bersonau yr oeddent yn gorfod dygymod â hwy ac yn aml iawn rhai yn eu harddegau - ambell sefyllfa drist iawn a rhai doniol hefyd. Dywedodd ei fod yn brofiad yr oedd wedi ei fwynhau ac erbyn hyn wedi ymddeol er mwyn rhoi rhagor o amser i'w hwyrion.

Diolchwyd iddi yn gynnes iawn gan Joyce, a Jill enillodd y raffl.

Aeth Elma ymlaen i ddymuno yn dda i'r aelodau sydd yn anhwylys a dweud ein bod yn meddwl amdanynt ac estynnodd longyfarchiadau i'r aelodau oedd wedi datlu penblwyddi arbennig yn ddiweddar.

Bydd ein cyfarfod nesaf ar y 6ed o Fedi yn y ganolfan yng nghwmni Lorraine Baldwin.

## Pen-blwydd

Mae un o gymeriadau'r pentref yn datlu pen-blwydd arbennig – Jim Douglas, Talfedw yn 80 oed. Penblwydd hapus iawn.

## Ffair Ram

Cynhelir Ffair Ram ar gae'r pentref ar ddydd Sadwrn 11eg Medi. Defaid a nwyddau i fewn rhwng 10 ac 11.30 y bore. Mwy o fanylion oddi wrth yr ysgrifenyddion Danny Davies 423692 neu Eiddig Jones 422655. Dewch i fwynhau'r diwrnod. Bydd atyniadau diddorol yno fel hen beiriannau, coits, adar ysglafaethus, gwneud coleri a cherffio ffyn, gwaith lledr, bwyd a bar. Croeso cynnes i bawb.

## Eglwys Sant Iago

Ar ddydd Sul Gorffennaf 4ydd ymunodd y Ficer, aelodau a ffrindiau

eglwys Sant Iago yn y maes parcio i fynd ar eu pererindod blynyddol. Nid oedd y tywydd yn ffafriol iawn wrth ddechrau'r diwrnod ond erbyn hanner dydd cawsom heulwen braf i fwynhau'r daith a gwerthfawrogi'r golygfeydd. Abaty a Chartws Llandudoch oedd yr ymweliad cyntaf a chyfle i gael cwpanaid o dê a bisgedi cyn cael ein harwain o amgylch adfeilion yr abaty a chael tipyn o hanes diddorol iawn am yr abaty sy'n dyddio 'nôl i'r 12fed ganrif. Clywsom fod unigolion uchel ei statws fel Gerallt Gymro ac Archesgob Caergaint wedi sefyll yno dros nos. Diddorol oedd clywed sut yr oeddynt yn byw yr adeg hynny yn yr abaty.

Mae'r Cartws wedi ei adfer yn amgueddfa a chanolfan ymwelwyr arloesol sy'n arddangos casgliad o gerrig cristnogol cynnar a cherrig cerfiedig cain o'r canol oesodd a fu yn arddurno'r abaty ar un adeg. Roedd hefyd cyfle i wyllo'r ffilm fer yn cyflwyno'r abaty, y pentref a'r tirwedd. Cyn dychwelyd i'r bws cawsom gyfle i ymweld â'r eglwys bresennol yn Llandudoch; hefyd y Felin sydd yn gyfagos i'r abaty ac yn un o'r rhai olaf sydd dal i weithio yng Nghymru ac yn cynhyrchu blawd traddodiadol. Cawsom ein tywys o amgylch a gweld fel roedd y felin yn gweithio i gynhyrchu'r blawd a phawb yn rhyfeddu gweld sut roedd peirianwaith yr olwyn ddŵr fawr yn symud.

Yna ymlaen i Nanhyfer lle yr oedd cinio blasus iawn wedi ei baratoi i ni yng ngwesty'r 'Trewern' a phawb wedi mwynhau'r bwyd a'r cymdeithasu cyn cerdded i ymweld ag eglwys hanesyddol, hynafol Sant Brynach yn Nanhyfer lle cawsom hanes yr eglwys gan ein ficer yr Hybarch Ddr William Strange ac ymuno mewn gwasanaeth o fyfyrddod, darlleniad a gweddïau a'r cyfan yn fendithiol iawn ac yn ddiweddglo pwrpasol i'n pererindod. Roedd llawer i weld yn yr eglwys

ac hefyd o amgylch y tu allan lle yr oedd cerrig hynafol iawn a chroes geltaidd a oedd yn 12 troedfedd o uchder. Mae'r Groes yn dyddio 'nôl i'r 10fed ganrif ac fe'i disgrifir fel un o'r engreiffitiau gorau sydd wedi goroesi o'r cyfnod hwnnw. Mae 'na ywen arbennig yn y fynwent sef 'Yr Ywen Gwaedlyd' ac yn llifo ohoni mae sudd coch fel gwaed. Yn ôl yr hen chwedl bydd yr ywen yn dal i waedu nes fydd Cymro yn eistedd yng nghastell Nanhyfer. Diolch unwaith eto i Graham a Ceinwen Evans am drefnu pererindod mor ddiddorol ac hanesyddol a phopeth wedi ei drefnu yn drwyadl a phob dim yn rhedeg i'r eiliad. Mae'r ddau yn drefnwyr penigamp o'n pererindod blynyddol- edrychwn ymlaen yn barod at yr un nesaf. Diolch eto i chi, roedd yn ddiwrnod hwylus iawn o gymdeithasu.

## Tê Mefus

Ar brynhawn Sadwrn 10fed Gorffennaf cynhaliwyd 'Tê Mefus' ynghyd â stondinau amrywiol o nwyddau blasus yn neuadd yr eglwys lle daeth nifer dda ynghyd i gynorthwyo'r digwyddiad a chodi arian i noddi'r beicwyr a fu yn beicio o Ystrad Fflur nôl i neuadd Sant Iago lle cawsom groeso bendigedig wrth gyrraedd 'nol ar ôl taith anesmwyth o law trwm a gwynt. Da iawn chi gyd am wynebu'r elfennau a chwblhau'r daith. Ar ôl i'r ficer a'r beicwyr cael cyfle i gael anadl, croesawodd y ficer bawb yn gynnes iawn i'r neuadd gan ddiolch iddynt am eu presenoldeb a'u cefnogaeth. Diolchodd hefyd i bawb a fu'n brysur yn paratoi y mefus a'r stondinau a'r rhai a fu'n cludo'r beicwyr i fyny at Ystrad Fflur i ddechrau'r daith. Yna bu cymdeithasu hwylus a phawb yn mwynhau'r mefus a hufen ynghyd â theisen fach a chwpanaid o dê a oedd wedi eu paratoi gan wragedd yr eglwys. Diolch i bawb am eu cydweithrediad ac i eraill a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd tuag at lwyddiant ysgubol y diwrnod.

## Clwb 125, Enillwyr Gorffennaf.

1.Rosa Lloyd, Cwmann. 2. Eva Brown, Cwmann. 3. Gwenda Thomas, Cwmann. 4.Gwen Jones, Cwmann. 5. Glesni Thomas, Cwmann.6. Gwenda Thomas, Cwmann. 7. Gavin & Rebecca Evans, Llanllwni. 8. Beryl Doyle, Cwmann. 9. Ann Jones, Cwmann. 10. Rosa Lloyd, Cwmann.

Clwb 125, Enillwyr Mehefin.

1.Edwin Harries, Cwmann. 2. Jean Thomas, Cwmann. 3. Eirwyn Jones, Cwmann. 4. Beryl Doyle, Cwmann. 5. Eleri Davies, Cwmann. 6. Ceinwen Evans, Cwmann. 7. Aled Williams, Cwmann. 8. Sonia Northam, Llanybydder. 9. David

Lloyd Jones, Llambled. 10. Graham Evans, Cwmann.

## Clwb 225, Enillwyr Gorffennaf.

1.R. Thomas, Cellan. 2. Lisa Mildon, Aberystwyth. 3.Ruth Jones, Pencarreg. 4.Ffiona Jones, Cwmann. 5.Llion Herbert, Cwmann. 6.R. Gabriel, Cwmann. 7.Gwenda Jones, Cwmann. 8.Mr a Mrs R Rees, Llambled. 9.Lena Williams, Cwmann. 10.Sheila Lewis, Cwmann.

## Clwb 225, Enillwyr Awst.

1.Terry Davies, Cwmann. 2.Jean Davies, Pencarreg. 3.Phyllis Smith, Llambled. 4.Harold Williams, Cwmann. 5.Eirlys Jones, Cwmann. 6.Lena Williams, Cwmann. 7.Mr a Mrs Woodgate, Parcyrhos. 8.Cyril Davies, Llambled. 9.Vaughan Abel, Cwmann. 10.Amanda Evans, Llanllwni.

## Ysbyty.

Da deall fod y canlynol adref o'r ysbyty: Ormond Jenkins Tandderwen, Yvonne Jones Tanybryn a Carys Jenkins 26 Heol Hathren. Gwellhad buan i chwi.

## Baban Newydd.

Llongyfarchiadau i Emyr a Michelle Hargareves, 17 Heol Hathren ar enedigaeth wŷr bach Leon, mab i Tyrone ac Elliw Milford House.

## Teledu.

Braf oedd gweld Gethin Morgan Penparc yn siarad am ei ddefaid Balwen ar raglen y Genhedlaeth Nesaf. Daeth llwyddiant hefyd iddo gyda'r defaid yn sioe Llanddewi Brefi, pan gipiodd sawl gwobr mewn gwahanol ddosbarthiadau, ac yna Richard ei dad yn ennill y drydedd wobwr yn nosbarth y cesig magu yn Sioe Llanellwedd. Daliwch ati.

## Eisteddfod Genedlaethol.

Llongyfarchiadau i Elin, Y Garn am dderbyn y wisg werdd Urddofydd, er anrhydedd yn dilyn ei llwyddiant yn ennill gwobr Llwyd o'r Bryn llynedd yn y Bala. Cafodd Guto lwyddiant hefyd eleni yn cipio y drydedd wobwr am y gystadleuaeth ymgom. Da iawn wir.

## Cydymdeimlad.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf at y canlynol:

Mr Evan Evans, Nirvana wedi iddo golli ei briod. Meinir Douglas a'r Teulu Llwydfedw ar farwolaeth ei thad a Mrs Davies a'r Teulu 19 Heol Hathren ar golli ei phriod. Ac yna daeth y newydd trist iawn am farwolaeth Llinos Harries, Penfro, Llambled yn enedigol o Barcyrhos. Cydymdeimlwn yn fawr â Malcom, Rosemary a'i brawd Alun ac Elsie Glanrhyd, Parcyrhos.



Bu'r Mudiad yn gymharol dawel dros yr haf; cyfle i ymlacio ar ôl blwyddyn lawn o arddangos doniau mewn gwahanol feysydd. Bu rhai clybiau yn ymweld ag ambell i sioe leol gan hyrwyddo'r clwb a'r mudiad; da iawn i chi gyd.

## Sioe Frenhinol Cymru

Wrth dynnu at ddiwedd blwyddyn orlawn a llwyddiannus i'r Mudiad daeth yr wythnos fawr. Wythnos fyrlymus o gystadlaethau yn Sioe Frenhinol Cymru yn Llanellwedd, a gafodd ei noddi gan y sir hon. Bu cystadlu brwd drwy'r wythnos yng nghornel Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru. Llongyfarchiadau gwresog i bawb a fu'n cystadlu gan gynrychioli Ceredigion yn y Sioe. Dyma restr o'r canlyniadau:

**Arddangosfa ffederasiwn:** 1af Penparc. **Hyrwyddo clwb:** 1af Llanwenog. **Barnu moch:** 1af Eifion Jenkins, Talybont.

**'Generation game':** 2il Sioned James a Carwyn Evans, Penparc

**Cystadleuaeth gwisgo:** 2il Delyth Williams a Sioned Rees-Evans, Lledrod. **Barnu defaid duon:** Ceredigion yn ail fel tîm a 1af i Rhys Lloyd-Jones o Landdewi Brefi dan 21, a 1af i Aled Llŷr Thomas dan 26 o Dalybont. **Olrhain eich hanes:** 3ydd Llangeitho. **Cystadleuaeth yr aelodau:** 3ydd i Geredigion.

Llongyfarchiadau i bawb am gystadlu, gan sicrhau bod Ceredigion yn cyrraedd yr ail safle ar ddiwedd y dydd, 3 phwynt tu ôl i Gaerfyrddin.

Yn ogystal, enillodd Ceredigion gystadleuaeth rygbi saith bob ochr gan guro Caerfyrddin yn y rownd derfynol.

## Teithiau i Sweden

Dros yr haf, aeth pedair aelod o'r sir ar deithiau tramor gyda'r mudiad - a'r pedair wedi gwibio i'r un wlad - Sweden! Bu Esyllt a Meirian (clybiau Llangwryfon a Llangeitho) ar y daith i aelodau dan 18 oed. Yno cawsant brofiadau arbennig gan ddod i adnabod pobl o wahanol ddiwylliannau a chefndiroedd drwy chwarae gêmâu gan gynnwys ras sach a saethu. Daeth y cyfle hefyd i ymweld â'r dref leol a chael gweld y wlad yn ei dillad pob dydd. Gyda'r nos bu'r merched yn mynychu ac yn cymryd rhan yn nawnsfeydd unigryw Sweden.

## Rali Ewropeaidd

Ddechrau mis Awst, bu Gwennan a Lowri (clybiau Llanwenog a Chaerwedros) ar y Rali Ewropeaidd, a gynhaliwyd eleni yn Halmstad. Wythnos yn llawn gweithgareddau yw hon, lle mae dros gant o aelodau'r C.Ff.I. a Mudiad y 4H o dros 20 o wledydd yn Ewrop yn dod at ei gilydd i gyd-weithio a mwynhau. Y thema ar gyfer y Rali eleni oedd Entrepreneuriaeth wledig, a chafwyd gweithdai ac ymweliadau yn ystod yr wythnos lle dysgwyd llawer am ieuencid yn dechrau eu busnes eu hunain yng nghefn gwlad. Cafwyd cyfleoedd i hyrwyddo Cymru - bu'r aelodau'n gwisgo eu gwisgoedd cenedlaethol, ac roedd gan bob gwlad eu stondin eu hunain yn y 'bwffe rhyngwladol' - cyfle gwych i hyrwyddo cynnyrch Cymru, a blasu peth o gynnyrch y gwledydd eraill wrth gwrs! Uchafbwynt yr wythnos oedd y cyfle a gafwyd i gwrdd â chymaint o aelodau eraill ar draws Ewrop, dysgu am y mudiadau, y diwylliant a'r iaith yn eu gwledydd nhw, a chymdeithasu gyda phobl o bob cwr o Ewrop! Hoffai tîm Cymru ddiolch o galon i bawb fu'n hael yn eu noddi ar y daith hon - trwy gynnig nwyddau a chynnyrch, a thrwy roi cymorth ariannol.

## Digwyddiadau i'ch dyddiadur!

Wrth orffen un cylch, daw'r rhod eto i droi am flwyddyn arall llawn cyffro yn y mudiad ac yn holl glybiau'r Sir. Dyma ddigwyddiadau mis Medi:

2 Medi 2010: Cwrs Swyddogion Clybiau de'r Sir - Rhydlewis.

10-12 Medi 2010: Cyfarfod blynyddol C.Ff.I. Cymru - Wrecsam

22 Medi 2010: Pwyllgor blynyddol y Sir

29 Medi 2010: Chwaraeon y Sir.

## HYSBYSEBU YN CLONC

*"Mae mwy a mwy yn gweld gwerth mewn hysbysebu yn y Papur Bro."*

Amcangyfrifir bod tua 3,000 o bobl yn darllen CLONC.

£10.00 am floc bach. £30.00 am chwarter tudalen.

£50.00 am flwyddyn o flociau bach.

Cysylltwch ag Ysgrifenyddes CLONC am ragor o wybodaeth:  
01570 480015 neu ysgrifennydd@clonc.co.uk

## Rali Ewropeaidd 2010 – Sweden

Mentrodd tîm Cymru, y pump ohonom wedi cael ein dewis drwy broses o gyfweiliad, allan i Sweden ar y 29ain o Orffennaf i fod yn llysgenhadon i'n gwlad ar Rali Ewropeaidd 2010. Y pump oedd Lowri Jones o CFFI Caerwedros, Meinir Jones o CFFI Llanfynydd, Lucy Stonebridge o Faesyfed, Wayne Shanklin o Sir Benfro a finne Gwennan Davies o CFFI Llanwenog yn arweinydd y tîm. Y ffordd hawsaf i gyrraedd Halmstad yn ne-orllewin Sweden oedd drwy hedfan i Copenhagen yn Nenmarc a dal y trê'n o'r fan hynny. Felly penderfynom hedfan ddiwrnod ynghynt ac ymweld â phrifddinas Denmarc er mwyn dod i adnabod ein gilydd yn well. Cawsom noson wych gyda digonedd o ganu Cymraeg ar strydoedd y ddinas!

Ymlaen â ni wedyn yn llawn cynnwrf i gwrdd â'r llysgenhadon eraill o dros 23 gwlad yn Ewrop a sefydlu ein hunain am wythnos yng Ngholeg amaethyddol Plönningegymnasiet a'r thema eleni oedd "Think Globally, Act Locally". Unwaith i ni gofrestru rhaid oedd creu dau boster, un am ein gwlad a'n mudiad a'r llall am fusnes mewn ardal wledig. Y busnes y gwnaethom ni greu poster arno oedd Quackers sef lle chwarae dan do i blant yn ardal Aberhonddu. Y diwrnod canlynol bum yn cymryd rhan mewn gweithgareddau adeiladu tîm a chawsom y cyfle i fod yn wir llysgenhadon i Gymru gan wisgo ein gwisg traddodiadol a llenwi ein bwrdd o gynnyrch Cymreig ar gyfer y bwffe rhyngwladol! Ar y dydd Llun fe fuom yn creu busnesau ein hunain yn yr un modd â rhaglen "Dragon's Den" gan gyflwyno'r syniad i fwrdd o feirniaid, y syniad buddugol oedd bag gyda un hanner i ddal ci bach a'r hanner arall i ddal eich colur ag ati!

Daeth y cyfle wedyn i ymweld â busnesau lleol yn yr ardal a dychwelyd i'r coleg i wneud 'Project 24' sef creu datrysiad i sefyllfa oedd pob busnes wedi ei roi i ni – ein sefyllfa ni oedd sut oedd denu mwy o ymwelwyr a hynny mewn modd gynaliadwy. Ar y dydd Mercher bûm eto allan yn ymweld â busnesau cyn i'r pedwar arall ffarwelio am noson a mynd i aros gyda theuluoedd yn yr ardal. Mi fues i'n ymweld â fferm oedd yn godro 1100 o dda, tair gwaith y dydd ar barlwr symudol yn dal 60 o dda ar un tro. Roeddent yn hollol hunan gynhaliol, yn cynhyrchu llaeth, iogwrt, hufen iâ, fflwr a chompost ar y fferm ac yn eu gwerthu i'r archfarchnadoedd lleol. Roedd y fferm yn 4000 o erwau o faint! Gan mai fi oedd arweinydd y tîm roedd hi'n ofynol imi fynychu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Rural Youth Europe a diddorol oedd clywed am eu gwaith caled yn trefnu'r Rali a'r Seminarau – gyda'r newyddion da y bydd Rali Ewropeaidd 2015 yn dychwelyd i Gymru!



Pan ddychwelodd pawb o'r teuluoedd gwesteio mi fûm yn gwerthu nwyddau o Gymru mewn marchnad fychain a braf yw adrodd nôl bod popeth wedi eu gwerthu! Daeth dydd Gwener yn llawer rhy gyflym a diwrnod oedd

hwn i adlewyrchu ar yr wythnos a fu gyda Delme Harries o Sir Benfro yn cymryd yr awennau mewn sesiwn 'Caffi'r Byd' lle roedd rhaid meddwl am entrepreneuriaeth yn ein hardaloedd gwledig a beth yr hoffem ni fel unigolion eu wneud. Wedi hyn roedd yn rhaid i bob gwlad greu sesiwn ar ryw fath o fusnes a phenderfynom ni ddisgrifio sut oedd dal gwahaddod! Bu rhai yn ddigon dewr i chwythu tân gyda chriw Latvia! Nos Wener cafwyd seremoni cloi'r Rali gyda'r gloch yn cael ei throsglwyddo i westeion y flwyddyn nesaf sef Slovenia. Daeth un o uchafbwyntiau'r Rali i ni fel Cymru y noson hon gan i ni gael cais gan y gwledydd eraill i ganu cân iddynt a chanwyd "Calon Lân" mewn tri llais gyda balchder! Yn sicr roedd hon yn un o wythnosau gorau ein bywydau a charwn ddiolch o waelod calon i'r noddwyr ac i'r cynhyrchwyr bwyd sydd gyda ni yng Nghymru am roi yn hael. Os ydych chi'n aelod o'r CFFI ac yn barod i joio mae'n rhaid ichi ymgeisio am y daith hon; cewch chi fyth wythnos yr un fath â hi yn unman arall, ewch amdani! Os hoffai sefydliad wybod mwy am ein helyntion rydym yn fwy na pharod i roi cyflwyniadau.



Gwennan Davies, Arweinydd Tîm Cymru i Rali Ewropeaidd 2010



# Llanybydder

## Diolch

Dymuna Mali, Rylwyn ddiolch o galon i bawb a ddangosodd eu caredigrwydd trwy alw i'w gweld, galwadau ffôn ac anfon cardiau yn ystod ei anhwylder yn ddiweddar.

Hefyd, hoffai Emyr Jenkins a'r teulu, Brynrhosyn ddiolch i'w holl gwsmeriaid am eu cefnogaeth dros 35 mlynedd diwethaf. Fe ymddeolodd Emyr ar ei rownd laeth ar Orffennaf 31ain. Diolch unwaith eto.

Dymuna Vivian a Gill Evans, ddiolch i bawb a ddanfonodd gardiau ac anrhegion atynt ar achlysur eu pen-blwydd Priodas Arian yn ddiweddar.

Dymuna Mrs Ray Davies, Crug ddiolch yn fawr am y cardiau a'r ymholiadau a dderbyniodd yn ystod ei arhosiad yn yr ysbyty yn ddiweddar. Gwerthfawrogi popeth yn fawr iawn.

## Bingo

Yn ystod mis Mehefin cynhaliwyd Bingo yng Nghlwb Rygbi Llanybydder i godi arian tuag at Cancr y Fron. Diolch i bawb a gefnogodd y noson.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Wyn a Caryl ar enedigaeth ei mab bach, Ifan Jac. Wyr bach i Wil a Mali, Rylwyn.

## Diolch

Dymuna Rhodri, Llysneuadd ddiolch o galon am yr holl gardiau, anrhegion ac arian a gefodd ar achlysur ei benblwydd yn ddeunaw oed.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Arwyn ac Elma Jones, Tangar ar enedigaeth wyres, Elen Mair. Merch fach i Dorian a Ceinwen yng Ngorsgoch.

## Cerdd

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar basio arholiadau cerdd o dan nawdd y Coleg Cerdd Brenhinol.

Ysgrifenedig:

Gradd 1 – Rhys Davies, Tyngrug-Isaf gydag anrhydedd. Gradd 2 – Betsan Jones, High View gydag anrhydedd.

Piano:

Gradd 1 – Jac Evans, Y Waun gydag anrhydedd. Gradd 3 – Sioned Evans, Glantrenfach a Betsan Jones, Highview â theilyngdod. Gradd 5 – Sioned Davies, Y Cartws gyda theilyngdod a Lowri Elen Jones, Glennydd, Llambod. Gradd 7 – Gareth Davies, Llys Enwyn. Gradd 8 – Wendy Davies, Isfryn

Pob lwc i Wendy ym Mhrifysgol Aberystwyth y tymor nesaf.

## Rhydybont

Mwynhawyd oedfa yn Soar-y-Mynydd gan aelodau Capel Rhydybont ar Awst 8fed. Roedd yr olygfa ar y ffordd yn fendigedig a'r neges gan y Parchedig Eifion G.Jones o Ddinbych yn fendithiol iawn. Diolch i Stanley Evans am drefnu'r cyfan.

## Cangen Diabetes

Mi wnaeth Ada ac Alf Thomas, Fronwen, Tregroes ddathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar, ac yn lle cael anrhegion gofynnwyd am rhodd arian i 'Diabetes UK'. Casglwyd £400 ac mi roedd Ada ac Alf yn falch iawn i drosglwyddo'r arian i gangen Llanybydder.

Hefyd yng Nghlwb Garddio Maesymeillion penderfynwyd eleni i rannu eu rhodd blynyddol rhwng tair elusen ac mi gafodd cangen Diabetes UK Llanybydder rhodd i £500 ynghyd â Meddygfa Teifi ac Apêl Cancr Llandysul.

## 90 oed

Dathlodd Simon Jones, Dolau Ville ei benblwydd yn 90 oed ar ddiwedd mis Awst. Iechyd da i chwi eto i'r dyfodol.

## Golff – Cwpan Ryder Mini Masters Cymru



Ar Awst 18eg yng Nghanolfan Golff Tycroes, Rhydaman fel rhan o rowndiau cyn-terfynol cystadleuaeth Mini Masters Cymru i ddarganfod y golffwyr ifanc gorau Cymru wnaeth Tomos Rhys Evans, Glantren-fach, Llanybydder ennill adran 8-11 oed. Bydd Tomos nawr yn mynd ymlaen i chwarae yn y Celtic Manor, Casnewydd ar Hydref 26ain cartref y Cwpan Ryder 2010.

Rhifyn mis Hydref  
Yn y Siopau  
**Hydref 7fed**  
Erthyglau i law erbyn  
**Medi 23ain**  
Newyddion i law erbyn  
**Medi 27ain**

Ychydig eiriau o werthfawrogiad ar derfyniad y gwasanaeth diffuant a roddodd y cyfaill Emyr Jenkins, Brynrhosyn, Llanybydder fel dosbarthwr llaeth i nifer helaeth o gartrefi ardal CLONC a'r cyffiniau am 35 o flynyddoedd gan Silyn a Rose Tomas, 12 Heol-y-Gaer, Llanybydder.

*Mawr yw ein diolch iti Emyr,  
Am yr hir wasanaeth gwyh  
Roddaist inni yn ddiffuant  
Ymhob tywydd, gwlyb a sych.  
Drwy y gwynt, y rhew a'r eira  
Clywid tinc y botel laeth  
O dy law ar drothwy'n drysau  
Bump a thri deg blwyddyn faith.*

*Er ffyddlondeb i'th gwsmeriaid,  
'Rioed ni fentraist fod yn sâl,  
Rhaid oedd dod o dan y blanced  
Cyn i'r adar ddod o'u gwâl.  
Pan ddoi'r wawr dros fanc*

*Llwynfedw*

*Roeddet bellter ar dy rownd,  
Tra'r oedd ardal CLONC yn  
chwyrnu  
Dan y cwilt, yn cysgu'n sownd.*

*Roedd d'ymweliad bob nos Wener  
Pan yn galw i gasglu'r pres  
A chael ennyd fach i gloncan  
Fel 'tae'n dod a'r byd yn nes.  
Hiwmor iach ac ambell stori  
Oedd bob tro yn rhan o'th sgwrs,  
Yn dy hwyl wrth weld dy gyfoeth  
Yn cynyddu yn y pwrs.*

*Trwy ddiwydrwydd dy lafurio,  
Daethost tithau'n filiwner.  
Ni raid mwy yn oerni'n gaea'  
Mynd â'r llaeth yng ngolau'r sér.  
Bellach, yn ddigwyl bydd Mary  
Gynt'n codi gyda'r wawr.  
Cei dy frecwast yn dy wely  
A chodi ar hamddenol awr.*

*Ond ni fentrafr ddweud 'ymddeol'.  
Dim ond byddi yn fwy rhydd  
I amrwyo dy drefniadau  
'Nôl y galw o ddydd i ddydd.  
Gwn y mynni gadw'n ddiwyd;  
Gwneud cymwynas yn ddi-oed.  
Ni fu diogi'n rhan o'th fywyd,  
Na segura awr erioed.*

Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno â'r farn a adlewyrchir yn mhob un o erthyglau CLONC.

**Dewch i flas ardal  
Cwmtawe cyn neu yn  
ystod Eisteddfod yr  
Urdd 2011. Dau fwthyn  
4\* y cysgu 5 a 6 mewn  
ardal wledig, ond yn  
gyleus i gwydro De  
Cymru, 20 mund o  
Abertawe.  
01792 863367.**

[www.walescottagebreaks.co.uk](http://www.walescottagebreaks.co.uk)

*Braidd yn ddiflas fydd y cornflakes  
A'r 'rice pudding' ar ôl hyn  
Heb fod naws dy ddwylo gweithgar  
Belch ar yr hylif gwyn.  
Crychu'i drwyn mae Wili'r cwrci'  
A Miss Middleton y gath.  
Hwythau nawr yn sylweddoli  
Nad yw'r brecwast mwy 'run fath.*

*Er daeth terfyn ar foreol  
Ddyddiol dinc y botel wen,  
Boed i hufen bywyd lifo  
Yn ddiderfyn ar dy ben.  
Ond dal ati i gario potel  
Fach neu ddwy, paid cadw draw;  
Braf fydd derbyn ambell botel  
O win blasus o dy law.*

*Ac yn awr dymunwn ni  
Gyfaill, 'Techyd Da' i ti.  
Hir a hwylus fo dy daith  
Heb gaethiwed y rownd laeth.*

## Silian



Elli Dafydd, Gwarffynnon a ddaeth yn drydydd yng nghystadleuaeth Llefaru 16 - 19 oed yn Eisteddfod Genedlaethol 2010.

**Noson i godi arian i  
'Diabetes UK Cymru'  
yng Nghlwb Rygbi  
Llanybydder  
ar nos Sadwrn, 18fed o Fedi  
am 7:00y.h.  
Adloniant gan:  
Dave Richards [diddanwr] a  
Disgo Harold  
Cymerir rhoddion wrth y  
fynedfa  
Noddir gan Banc Barclays £ am £.**



# Cwrtnewydd

## Llwyddiant

Yn ystod Eisteddfod yr Urdd yn Llanerchaeron ym mis Mehefin fe fu corau o Ysgol Gyfun Dyffryn Teifi, Llandysul yn llwyddiannus iawn gan sicrhau sawl gwobr o dan arweinyddiaeth Mrs Sharon Long, Llysalaw, athrawes Gerdd yr ysgol. Ymfalchiwn yn fawr yn ei llwyddiant.

## Priodas Arian

Dathlodd Huw a Bethan Rees, Y Felin eu Priodas Arian yn ystod yr Haf. Iechyd Da eto am flynyddoedd lawer.

## Mabolgampau Cwrtnewydd

Oherwydd iddi lawio ar y diwrnod methwyd â chynnal y Mabolgampau unwaith yn rhagor eleni. Fe gynhelir y Mabolgampau nawr ar brynhawn dydd Llun, Medi'r 6ed am 5:00 o'r gloch.

## Cydymdeimlo

Yn ystod yr haf bu farw John Thomas, Bryngranod ac fe gydymdeimlir yn ddwys gyda'r teulu oll yn eu colled.

Hefyd cydymdeimlir yn ddwys â Doris Williams, Spring Gardens ar golli ei chwaer Gertie Walters a oedd yn byw yng Nghribyn. Hi oedd aelod hynaf Capel Seion ac yno y cynhaliwyd ei gwasanaeth angladdol.

## Priodas Dda

Ar ddiwedd mis Gorffennaf priodwyd Russell a Sue Jones, Rhyd-Ddu yn Llambled. Dymuniadau gorau i chi i'r dyfodol.

## 80 oed

Pan fydd Clonc yn dod o'r wasg bydd Mrs Ray Evans, Brynhogfaen yn dathlu ei phenblwydd yn 80oed. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r diwrnod a'r dathlu.

## Llongyfarchiadau

Braf oedd clywed am lwyddiant Huw Evans, Alltgoch yn yr Eisteddfod Genedlaethol wrth iddo ennill y gystadleuaeth Portread.

## Llanllwni

## Arholiad Piano

Mae Sinead Evans, 29 Bryndulais, wedi pasio ei arholiad piano cyntaf gyda Chlod. Da iawn ti.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Sian Bela Jenkins, Clyniâr ar ei llwyddiant yn yr arholiadau Lefel A – 2A a 1B. Bydd yn dechrau ar ei chwrs yn y Brifysgol yng Nghaerdydd ym mis Medi. Pob lwc i'r dyfodol.

## Ysgol Cwrtnewydd



## Priodi

Llongyfarchiadau mawr i Miss Hannah Jones a Celt ar achlysur eu priodas dros gwyliau'r haf. Byddwn yn croesawu Miss Jones yn ôl fel Mrs Thomas ym mis Medi.

## Sioeau Lleol

Cafodd llawer iawn o'r blant lwyddiant arbennig yn y sioeau lleol dros y gwyliau.

Dyma'r canlyniadau :-

## Sioe Cwmsychpant

Arlunio bl.2 a thano - 1af Alaw Jones; 2il Lisa Jenkins; 3ydd Zachary Wroe. Arlunio bl. 3 a 4 - 1af Gethin Morgans; 3ydd Owain Jones. Arlunio bl. 5 a 6 - 1af Edward Furlong; 3ydd Kiera Cashel.

Cafodd Edward Furlong y rhuban arbennig am y darn arlunio gorau yn y sioe.

## Sioe Gorsgoch

Arlunio Dosbarth Derbyn - 1af Alaw Jones; 2il Danny Waterman; 3ydd Lisa Jenkins. Arlunio Bl. 1 a 2- 2il Nia Morgans; Arlunio Bl. 3 a 4 - 1af Cerys Pollock; 2il Madeleine Smith. Arlunio Bl. 5 a 6 - 1af Kiera Cashel; 2il Aleksandr O'dell. Llawysgrifen 3 a 4 - 2il Cerys Pollock; 3ydd Madeleine Smith. Llawysgrifen Bl. 5 a 6 - 3ydd Aleksandr O'dell.

Enillodd y plant Tarian Sialens Cyngor Cymuned Llanwenog am yr ysgol â'r mwyaf o bwyntiau yn yr adran arlunio a llawysgrifen. Da iawn chi blant!

## Canlyniadau Clwb 100 Gorffennaf

1af – G & M Humphreys, Llwynceilyn, Llanllawddog, Caerfyrddin. 2ail – Gethin Williams, Blaenwaun, Talley. 3ydd – Evelyn Williams, Corsyfran, Maesycrugiau. 4ydd – Brenda Jones, Tŷ Cerrig, Cwrtnewydd..

## Awst 2010

1af – Sharon Morgans, Glwydwern, Gorsgoch. 2ail – Lewis Davies, Cilmeri, Cwmsychpant. 3ydd – Lyn Jenkins, Haulfryn, Rhydowen. 4ydd – Lisa Jenkins, Hafan y Cwm, Cwmsychbant



Paul Williams, Clyncoch a gafod y wobwr gyntaf gyda'i 'Call Duck'.



Elin Jones AC gyda Huw Evans, Alltgoch a Gareth Evans, Parcyrhos gyda pâr o ddefaid Llanwenog yn y Sioe Fawr.

## Llangybi

## Cyrddau Diolchgarwch

Maesyffynnon – Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch, Maesyffynnon ar Fedi 15fed am 2:00y.p. Y pregethwr gwâdd fydd y Parch Nicholas Bee.

Ebenezer – Ar Nos Wener, Medi 24ain cynhelir Oedfa Ddiolchgarwch Ebenezer am 6:30y.h. Y gennad fydd Miss Beti Griffiths.

Eglwys Sant Cybi – Ar Fedi 30ain fe gynhelir Cwrdd Diolchgarwch yr eglwys am 7:00y.h. Y gŵr gwâdd yw y Parch J. Emrys Jones. Croeso cynnes i bawb i'r oedfaon oll.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau calonnog i Mrs Eirian Griffiths, Glandulas ar ei llwyddiant aruthrol yn y Sioe Frenhinol. Cafodd y fuwch ddu Gymreig ddau gyntaf ac un ail ac roedd yn is-bencampwr hefyd. Hefyd, hi oedd y pencampwr yn Sioe Aberteifi a Llanilar.



Eirian Griffiths, Glandulas a gafodd y wobwr gyntaf yn nosbarth y fuwch neu heffer mewn llaeth ac hefyd yn nosbarth y fuwch a'r llo. Aeth ymlaen i ennill yr Is-Bencampwr yn y Sioe Frenhinol.



# Llanbedr Pont Steffan

## Gwellhad Buan

Gobeithio fod Mrs Beryl Davies, Awel-deg, Heol Cambrian dipyn yn well erbyn hyn ar ôl iddi dderbyn llaw-driniaeth yn ddiweddar.

## Cydymdeimlo

Ar fore diwethaf mis Gorffennaf fe fu farw Alan Jenkins, Ceulan, [Tyllwyd gynt]. Cydymdeimlir yn ddwys â'i wraig Ceinwen a'r plant Meinir, Iwan, Ann ac Elfed a'u teuluoedd yn eu profedigaeth o golli un a oedd mor annwyl iddynt.

## Merched y Wawr

Bydd sefydliad Merched y Wawr cangen Llanbedr Pont Steffan a'r Cylch yn cwrdd i ddechrau'r tymor newydd, trwy gynnal Noson Agored ar y 13eg o Fedi 2010 yn Festri Capel Shiloh, Llambled.

Fe fydd adloniant y noson yn nwylo medrus 'Dim ond Dwy' sef Rhian Morgan a Llio Silyn y ddwy actores ffraeth, sydd yn cynnal nosweithiau delfrydol yn cynnwys barddoniaeth, straeon, cymeriadau lliwgar, comedi a llawer mwy.

Mae'r Llywydd Mrs Mary Davies a'r pwyllgor yn estyn croeso cynnes i'r aelodau presennol ac hefyd aelodau newydd i ymuno â'r gangen yma yn Llambled.

Felly, dewch i fwynhau cymdeithasu a chwrrd â ffrindiau newydd ymhlith cwmni croesawgar.

Am fanylion pellach cysylltwch â'r ysgrifenyddes ar 01570 422546. Noddir y noson gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

## Wyres fach

Llongyfarchiadau i Emyr Richards, Goedwig ar ddod yn ddateu am y tro cyntaf yn ystod mis Awst, merch fach Efa Marged, i Geinor a Chris yng Nghaerfyrddin.

## Sioe Llambled

Bu cystadlu da iawn yn y babell yn Sioe Llambled eleni. Dyma'r enillwyr lleol: Crefftau gwledig – Ieuan Roberts, Madryn; Coginio a gwobr arbennig – Elliw Dafydd, Gwarffynnon; Yr arddangosiad orau – Sian Jenkins, Fferm Castell; Crefftau llaw a gwobr arbennig – Iris Quan, Blaencwm, Llanfair; Ysgol Feithrin a gwobr arbennig – Dyfodol, Cellan; Dan 8 oed – Sam Jenkins, Castell; Dros 8 oed – Sally Rees, Mount; Adran arbennig – Canolfan y Bont.

## Cymdeithas Hanes

Cafwyd seibiant o'r cyfarfodydd dros yr Haf, ond bu rhai o'r aelodau ar ymweliad â safle arbennig, 'Hen blas yr Hafod'. Bu Jenny McVee yn siarad â'r Gymdeithas peth amser yn ôl, felly roedd yn ddiddorol cael gweld y gwaith sydd wedi'i gyflawni i adfer y gerddi a'r llwybrau, a'r gwaith yn dal i fynd yn ei flaen.

Bydd tymor newydd y Gymdeithas yn cychwyn ar Fedi'r 21ain. Bydd y noson hon ychydig yn wahanol oherwydd byddwn yn ymweld ag Eglwys Sant Pedr a'r Eglwys Gatholig. Bydd y Dr. John Morgan Guy yn ymuno â ni unwaith yn rhagor i esbonio'r trysorau sydd yn yr Eglwys; hyn yn dilyn ei ddarlith ym mis Mai. Sylwer ar yr amser – yr aelodau i gwrdd yn Eglwys Sant Pedr am 6 o'r gloch. Croeso cynnes i aelodau newydd.

## Cydymdeimlad.

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliad yn ystod misoedd yr haf.

## Cerddi ac Emynau y 'Bobl'.

Mae llyfr Beryl Davies, yn dwyn y teitl 'Emynau'r Mynydd a Dylanwad Bore Oes' wedi dod o'r wasg yn ystod yr wythnosau diwethaf. Fel y crybwyllwyd eisoes yn Clonc mae'n cynnwys amrywiaeth o emynau, sonedau, diarhebion a cherddi-rhyweth at ddant pawb. Yn ôl yr awdur 'Cerddi ac Emynau y Bobol yw'r Rhain.' Mae'r llyfr ar werth nid yn unig yn Llambled ond hefyd mewn siopau ar hyd a lled Cymru. Os am fanylion pellach cysylltwch â Janet ar 01570 422 856.

## Noddfa

Bu un prynhawn Sul ar ddiwedd yr haf yn gofiadwy ac yn wahanol yn hanes Noddfa pan ddaeth cynulliad teilwng iawn o oedolion a phlant ynghyd i Ysgol Gynradd Ffynnonbedr yn y dref. Croesawyd pawb yn gynnes gan ein Gweinidog y Parchedig Jill Tomos a datganodd ei gwerthfawrogiad i Llinos am drefnu'r ymweliad ac i Huw Jenkins, Prifathro am ei gydweithrediad parod. Bu'n rhaid cynnal ein hoedfa gymun deuluol yn y stiwdio



## Llwyddiant Chwaer a Brawd

Llongyfarchiadau i Lowri Elen, Glennydd ar ennill y drydedd wobwr am lefaru o'r ysgrythur yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Hefyd am basio arholiad piano Gradd 5 ac arholiad canu Gradd 4 gydag Anrhydedd. Llongyfarchiadau i'r brawd Tomos am basio arholiad piano Gris 1 gydag Anrhydedd. Pob lwc i'r dyfodol.

oherwydd y glaw. Gan fod nifer o blant yn bresennol canwyd emynau'r ifanc allan o raglen y Gymanfa ac fe'u cyhoeddwyd gan Tomos Rhys, Aled, Osian, Lisa, Elan a Beca. Tra oedd Llinos yn darllen adnoddau o'r Testament Newydd yn cyfeirio at Iesu yn cael ei fradychu a'i ddal, bu'r plant i gyd yn ail greu'r digwyddiad gyda'r merched yn cymryd rhan Iesu a'i ddisgyblion a'r bechgyn y milwyr. Yna cyn mynd ati i weinyddu'r cymun bu'r Gweinidog yn sôn am y pwysigrwydd o ddilyn esiampl Iesu drwy ddangos cariad a chonsyrn at eraill a chafodd ymateb brwd a hwyliog i'w chwestiynau gan y plant. Wrth i'r oedolion ymgymryd o'r bara a'r gwin dosbarthwyd siocledi a sudd afal i'r bobl ifanc gan sicrhau eu bod hwythau hefyd yn rhan o ordinad y cymun. Cafwyd pleser wedyn yn gwylio ffilm fer a gynhyrchwyd yn yr ysgol yn olrhain hanes Syr Herbert Lloyd sef cymeriad lliwgar a chreulon oedd yn byw yn Llambled yn y 18fed ganrif. Daeth y ffilm i'r brig mewn cystadleuaeth a drefnwyd i ysgolion Ceredigion. Agorwyd ysgol newydd Ffynnonbedr ym mis Medi 2007 ac roedd nifer o aelodau Noddfa yn ymweld â hi am y tro cyntaf. Roedd pawb yn rhyfeddu at ysblander yr adeiladau wrth fynd o amgylch. Erbyn hyn roedd yr haul yn tywynnu'n braf ac allan â ni i'r ardd wyllt a agorwyd gan Iolo Williams. Fe'n tywyswyd o gwmpas gan Llinos sy'n athrawes yn yr ysgol ac roedd pawb yn fawr eu hedmygedd o'r holl ddatblygiadau sydd wedi eu cyflawni yno ac mae rhagor i ddod. Roedd pawb wrth eu bodd yno yn enwedig y plant! Roedd y cyfan yn agoriad llygad. Nôl â ni wedyn i fwynhau picnic a chlonc yn yr awyr agored. Cafodd y plant lleiaf hwyl a sbri yn chwarae ar yr offer amrywiol sydd ar gael yno a threuliodd y bechgyn hynaf orig ddifyr yn chwarae pêl-droed. Cytunai pawb ein bod wedi cael prynhawn o fwynhad mawr yng nghwmni ein gilydd a'r tywydd braf yn goron ar y cyafan. Yn ddiweddar bu 6 o aelodau'r Ysgol Sul yn cyflwyno adloniant amrywiol i Henoed y dref yn cynnwys unawdau a grwpiau canu hynod safonol a Janet yn cyfeilio. Hefyd paratowyd te ardderchog i'r Henoed gan chwirydd Bethel, Caersalem a Noddfa. Mae aelodau'r Ysgol Sul wedi mwynhau seibiant haeddiannol yn ystod misoedd yr haf. Bydd y tymor newydd yn dechrau ar 12 Medi am 10.30 o'r gloch. Edrychwn ymlaen at gydweithio hapus unwaith eto.

## Llwyddiant Eithriadol

Llongyfarchiadau cynnes i Gôr Merched Canna Caerdydd, dan arweiniad Delyth Medi Lloyd,

gynt o Landre, Llambled ar eu llwyddiant mawr yn Eisteddfod Genedlaethol Blaenau Gwent a Blaenau'r Cymoedd. Dyfarnwyd y Côr yn gyntaf yng nghystadleuaeth y Corau Merched gan dderbyn Cwpan Charles Dawe ynghyd â £750. Hefyd cyflawnwyd Medal Côr Merched Hafren i Delyth. Dyma'r seithfed tro i'r Côr ennill y gystadleuaeth hon sydd yn gamp arbennig iawn. Aeth y Côr ymlaen i gyflawni'r dwbwl drwy ennill cystadleuaeth y Côr Alaw Werin rhwng 21-40 mewn nifer. Cyflwynwyd Tlws Parti'r Ffynnon i'r Côr ynghyd â £400. Derbyniodd y Merched gamoliaeth aruchel am eu datganiadau gwych. Pob dymuniad da iddynt i'r dyfodol.



## Llongyfarchiadau

Jâms Coleman, a ennillodd yr unawd piano dan 19 oed yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanerchaeron. Mae Jâms yn ddisgybl yn Ysgol David Hughes, Porthaethwy ac wedi llwyddo i ennill Pedair Gradd A\* yn Lefel A hefyd.

Mae gan Jâms gysylltiad lleol, yn wyr i Mrs. Jennie Jones, Gwel Y Gelli, Brynryglwys, Llambled.

## 90 oed

Dathlodd Mrs Annie Lloyd, Tegfryn, Maesyfelin ei phenblwydd yn 90 oed yn ystod mis Awst. Gobeithio i chwi fwynhau'r diwrnod yn fawr iawn. Iechyd da i chwi am sawl blwyddyn eto.

## Taith Shiloh, Llambled

Un o'r uchelfannau i aelodau Shiloh yw'r daith flynyddol a drefnir gan Twynog a Hazel Davies. Roedd yn hyfrydwch eleni i weld bod Hazel wedi gwella digon i gynorthwyo gyda'r trefniadau ac i ddod ar y daith. Daeth tua deugain o aelodau a ffrindiau ynghyd ar fore heulog o haf ar gyfer y daith i Neuadd Abbey Cwm Hir yn sir Faesyfed. Wrth i Emrys y gyrrwr lywio'r bws ar hyd yr heol droellog a chul drwy Ysbyty Ystwyth, Ponthydygroes ac yna heibio'r Eglwys Newydd, cawsom hanes yr ardal gan Mair Lewis. Yna wrth groesi'r mynydd o Gwmystwyth i Raeadr Gwy bu



# Llanbedr Pont Steffan

Owen Jones wrthi'n sôn ychydig am y gweithiau mwyn ac Aneurin Davies yn enwi'r ffermydd. Wedi cyrraedd Rhaeadr ymwelwyd â Chanolfan Grisial Cymru sy'n cynhyrchu pethau gwydr o'r radd flaenaf. Gwelwyd un o'r gweithwyr wrth ei waith ac fe ryfeddwyd at y patrymau cywrair a lwyddodd i'w creu. Trist oedd deall, serch hynny, mai ef oedd yr unig grefftwr oedd ar ôl ac nad oedd neb yno i ymgymryd â'r gwaith wedi iddo ef ymdeol. Ar ôl aros am ychydig i gael bwyd anelwyd at bentref Abaty Cwm Hir er mwyn ymweld â'r Neuadd. Ar y daith yno esboniodd Owen Jones bod yna arwyddocâd arall i'r pentref gan mai yn yr abaty y claddwyd corff Llywelyn ein Llyw Olaf, wedi iddo gael ei ladd gan filwr o Sais yn ymyl Cilmeri. Fe'n croesawyd i'r Neuadd gan y perchnogion ac esboniwyd mai yn oes Fictoria y codwyd y tŷ oedd yn cynnwys dros hanner cant o ystafelloedd. Oddiar ei brynu a'i addasu buont wrthi'n addurno pob ystafell mewn dull gwahanol, ac yn casglu pob math o bethau. Wrth i ni gael ein harwain o gwmpas cawsom ein rhyfeddu gan yr holl drysorau, ac yn sicr nid yw un ymweliad yn ddigon i werthfawrogi'r cyfan. Cafwyd cyfle wedyn i grwydro o amgylch y gerddi ac i ymweld â'r garreg sy'n nodi'r fan lle claddwyd Llywelyn. Roedd Twynog a Hazel wedi trefnu i ni gael pryd o fwyd yng ngwesty'r Llew yn Llanfair ym Muallt, a gedwir ar hyn o bryd gan gyn 'landlord' y King's Head yn Llamed. Cafwyd pryd blasus iawn, ac yna roedd yn bryd cychwyn am adref. Wrth fynd trwy Cilmeri cafwyd cyfle i weld y cofgolofn a godwyd i gofio am Llywelyn cyn croesi'r Sugar Loaf ac anelu am Lamed. Diolchodd Rhys Bebb i Hazel a Twynog am ddiwrnod plesurus, ac edrychwn ymlaen yn awr am daith flwyddyn nesaf.

## Medal W.R.V.S.

Llongyfarchiadau i John Davies, Bryncastell ar dderbyn Medal am ei wasanaeth tymor hir i'r W.R.V.S. trwy'r cynllun Ceir y Wlad (Country Cars). Fe'i cyflwynwyd iddo gan drefnydd y W.R.V.S. yn siroedd Ceredigion, Caerfyrddin a Phenfro yn swyddfa CAVO yn Llamed. Bu'n cyflawni'r gwaith am dros 27 o flynyddoedd ac mae'n parhau i wneud hynny. Mae'r gwasanaeth hwn yn hanfodol bwysig i'r henoed. Mae Beti ei briod hefyd wedi rhoi blynyddoedd maith o wasanaeth fel trefnydd y cynllun yn lleoli'r W.R.V.S. Diolch i'r ddau ohonynt am roi o'u hamser i helpu eraill.

## Diolchiadau

Dymuna Mrs Morgan a'r teulu Garej Pontfaen ddiolch i bawb am y llu cardiau, blodau a rhoddion a dderbyniodd pan gollwyd ei chwaer a oedd yn byw yn Felinfach.

Dymuniad Mrs. May Thomas, Bryn yr Eglwys yw diolch yn fawr am yr holl gardiau, anrhegion a blodau a dderbyniodd ar ei phenblwydd arbennig yn ddiweddar. Diolch yn fawr i bawb.

Dymuna Russell a Susan Jones ddiolch yn gynnes i bawb am y cardiau a'r rhoddion a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu priodas yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn.

Mae Mrs Mair Long o Gaerdydd, gynt o Haulfryn, 1 Maesyllan am ddiolch yn ddiffuant i bawb am yr holl gonsyrn a ddangoswyd tuag ati yn dilyn ei llawdriniaeth boed trwy gardiau, rhoddion a galwadau ffôn. Gwerthfawrogi'r cyfan yn fawr. Erbyn hyn mae Mair yn medru cerdded gan bwyll heb y ffyn baglau ac yn gobeithio dechrau nôl yn yr ysgol ym mis Medi.

Dymuna Mrs Annie Lloyd, Tegfryn, Maesfelin ddiolch yn ddi-ffuant am y llu cardiau, anrhegion, blodau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn 90 oed yn ddiweddar.



Iris Quan yn ennill tarian am y nifer fwyaf o bwyntiau yn adran y Gwaith Llaw yn Sioe Llamed.



Berwyn Hughes, Cwmhendryd gyda 'MR WAW FACTOR', a enillodd y wobwr gyntaf yn y dosbarth gwartheg biff 426kg a throsodd yn y Sioe Frenhinol. Mae'n derbyn y gerdyn gyda Llys Genhades y Sioe sef Teleri Jenkins-Davies.



Llywydd y Sioe Mr Tommy Price ac Irene yn cyflwyno cwpan i Dafydd a Gwynfor Lewis, W D Lewis a'i Fab.

# Pentrebach

## Priodas Aur

Llongyfrachiadau i Doris ac Andrew Jones, Cwmgwyn ar ddathlu eu Priodas Aur yn ystod mis Awst. Iechyd da i chi eich dau am flynyddoedd eto.

## Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Carys Jones, Undergrove, Pentrebach ar basio arholiad piano Gradd 3 a gynhaliwyd dan nawdd y Goleg Gerdd Brenhinol. Pob lwc iddi i'r dyfodol.



## Llwyddiant yn y Sioe

Daeth Mudiad Ffermwyr Ifanc Sir Gâr i'r brig wedi wythnos prysur yn y Sioe Frenhinol. Bu aelodau Sir Gâr yn cystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau dros gyfnod o bedwar diwrnod- cystadlu wrth ochr aelodau eraill o'r mudiad o bob cwr o Gymru. Ar ddiwedd y pedwerydd diwrnod â'r diwrnod olaf roedd Sir Gâr ar y blaen ac fe ddaeth Tlws Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yn ôl i'r Sir am yr ail flwyddyn yn olynol.

Diolch i'r holl hyfforddwyr a rhieni am eu cymorth parod gyda'r aelodau wrth baratoi at gystadlaethau'r Sioe.

**Coginio** - Fe wnaeth Laura George a Carwen George, C.F.F.I Dyffryn Cothi gystadlu yn y gystadlaeth coginio a pharatoi picnic i ddau yn addas ar gyfer y 'Ryder Cup'.

**Gwisgo Arweinydd** - Cymerodd Lucy Wright a Polly Harries, C.F.F.I Dyffryn Cothi ran yng nghystadlaeth Gwisgo Arweinydd, trwy wisgo lan Aneurin Jones, un o arweinyddion eu clwb fel Arwr Cymreig. Cafodd Aneurin ei drawsnewid i Owain Glyndŵr. Daethant i'r brig ar ddiwedd y gystadlaeth ac ennill Tlws Her Elfyn Richards.

**Gwaith coed** - Daeth Owen Davies a Geraint Griffiths, C.F.F.I Dyffryn Cothi yn 2ail yn y gystadlaeth Gwaith Coed, - yr her oedd i gynllunio a gwneud Cwb Ci yn addas ar gyfer ci defaid.

**Cneifio** - Daeth Ian O'Connor, C.F.F.I Dyffryn Cothi a Rhydian Thomas, C.F.F.I Cwmann yn 1af yn y gystadlaeth Cneifio gan ennill tlws Her Lister.

Llongyfarchiadau mawr i bawb wnaeth gystadlu trwy gydol yr wythnos a chyfrannu tuag at Llwyddiant Sir Gâr.





Enw: Mared Rand Jones  
Oed: 29  
Pentref: Llanfair Clydogau  
Gwaith: Swyddog Datblygu C.Ff.I Ceredigion  
Teulu: Dad, Mam, Dafydd, Nia a Guto.

## Unrhyw hoff atgof plentyndod.

Actio fel un o'r porthmyn yn Sioe Mudiad Ysgolion Meithrin yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llambled

## Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.

Heb os – Ffalabalam a Nyth Cacwn

## Yr eiliad o'r embaras mwyaf.

Esgus bod mewn cariad gyda fy mrawd Dafydd ar lwyfan Theatr Felinfach yng nghystadleuaeth Drama pan oeddwn yn 15 oed.

## Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.

Bod yn gwrtais a thrin pawb â pharch.

## Y CD cyntaf a brynast di erioed?

Albwm 'Smirffs'

## Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?

Athrawes ysgol gynradd neu'n gyflwynydd ar raglenni plant

## Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?

Gwyllo Llambled yn chwarae Rygbi ar brynawn Sadwrn gyda fy ffrindiau.

## I ba gymeriad enwog wyt ti'n debyg?

Mae fy mrawd yn dweud Geraldine o'r rhaglen 'Vicar of Dibley'!!!!

## Pwy yw dy arwyr?

Owain Glyndwr a Hywel Teifi Edwards am eu cariad tuag at y wlad a'r iaith.

## Y peth gorau am yr ardal hon?

Yr iaith a'r diwylliant a phawb yn nabod pawb.

## Y peth gwaethaf am yr ardal hon?

Bod petrol yn ddrutach.

## Pa mor wyrdd wyt ti?

Eitha gwyrrdd ond mae yna le i wella eto.

## Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?

Cymraeg bob tro.

## Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?



Pobl ddiog, negatif a dau wynebog.

## Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?

Yn rhwydd - gwyliau moethus, cegin newydd a lot fawr o ddillad.

## Beth sy'n codi ofn arnat?

Gwaed a nodwyddau – dwi'n real fabi!

## Pryd chwydaist ti ddiwethaf?

Ar ôl dod nôl o'r Sioe Frenhinol eleni, bues yn sâl yn y gwely trwy'r penwythnos.

## Pryd est ti'n grac ddiwethaf?

Yn ddiweddar pan wnaeth ryw Volvo grafu ochr fy nghar heb stopio.

## Beth oedd y celwydd diwethaf i ti ddweud?

Pan ffoniodd rhywun fi i drïo gwerthu ffenestri newydd – esgusais taw rhywun arall oeddem a dywedais bod Miss Jones wedi symud.

## Am beth wyt ti'n breuddwydio?

C.Ff.I rhan fwyaf o'r amser yn enwedig adeg y Rali!

## Unrhyw ofergoelion?

Gorfod codi llaw pan fyddaf yn gweld un pioden. Does dim 2 heb 3. Peidio cerdded dan ysgol.

## Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?

Cael swydd llawn amser yng Ngheredigion

## Ac yn bersonol?

Cael fy newis yn Forwyn y Sir yn Rali Llanwenog 2004 a chael rhan PC Wpsi Deisi ym Mhanto 'Dolig Felinfach.

## Wyt ti'n dyfaru rhywbeth?

Peidio gwneud mwy o waith drama a pherfformio pan oeddwn yn ifanc.

## Beth yw dy gyfrinach i gadw'n burt / i gadw'n gryf?

Tynnu colur cyn mynd i'r gwely a mynd i'r siop trin gwallt a'r siop harddwch yn rheolaidd.

## Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?

Cadw'n brysur, ymarfer gyda Chlwb Hoci Caron a cherdded ar y 'Treadmill' pan fo amser.

## Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?

Mae bywyd yn fyr felly rhaid gwneud y mwyaf ohono!

## Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.

Pan ddechreuais fy swydd fel Swyddog Datblygu C.Ff.I Ceredigion.

## Disgrifia dy hun mewn tri gair.

Hapus, bywiog a swil.

## Pa gar wyt ti'n gyrru?

Volkswagon Golf GT TDI Coch.

## Gyda phwy fyddet ti'n hoffi bod yn sownd ar ynys anghysbell?

Www joien i fod yn sownd ar ynys anghysbell gyda Ryland Teifi.

## Beth wyt ti'n ei ddarllen?

Dim llawer o amser i ddarllen

ond ar hyn o bryd yn mwynhau darllen trwy hen rifynnau o Cwys C.Ff.I Ceredigion. Hefyd dwi'n hoffi darllen cylchgrawn OK yn wythnosol.

## Beth yw dy hoff arogl?

Silwair amser cynhaeaf.

## Pa wefan wyt ti'n ymweld â hi fwyaf aml?

Facebook – dwi braidd yn hooked!

## Pwy yw'r person enwocaf ar dy ffôn symudol?

Ifan Jones Evans ac wrth gwrs Slic.

## Heblaw'r teulu, beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?

Fy esgidiau yn bendant – dwi'n hoff iawn ohonynt.

## Beth sy'n rhoi ysbrydoliaeth i ti?

Brwdfrydedd ac ymrwymiad pobl sy'n gweithio'n wirfoddol er lles eraill yn y gymuned.

## Pa gerddoriaeth yr hoffet ti yn dy angladd?

Dim byd diflas – efallai'r gân 'I am the one and only' a Chôr Meibion yn canu 'Calon Lân'.

## Pa beth wyt ti'n ei drysori fwyaf?

Teulu a fy ffrindiau.

## Y gwyliau gorau?

Kavos yng Ngroeg gyda merched Coleg yn 2002 a hefyd yn Benidorm mis Ebrill diwethaf gyda rhai aelodau o C.Ff.I. Ceredigion – amser bythgofiadwy!

## Pa dair gwlad yr hoffet fynd iddyn nhw cyn marw?

Hollywood, Seland Newydd a Phatagonia.

## Pa dri pheth yr hoffet ti wneud cyn dy fod yn ddeugain?

Colli pwysau, pasio prawf tynnu treiler a dysgu sut i winio.

## Petaet ti'n anweladwy am ddiwrnod, beth fyddet ti'n ei wneud?

Mynd o amgylch tai pobl i fusnesan yn enwedig tai pobl enwog.

## Ble fyddi di mewn deng mlynedd?

Dal yn iach gobeithio ac yn mwynhau bywyd gyda fy nheulu a'm ffrindiau.

## Testun Cyfrinachau'r rhifyn nesaf:

**Berwyn Hughes,  
Cwmhendryd**



# Cwmsychpant

## Sioe Cwmsychpant 2010

Ar ddydd Sadwrn, Awst 14eg cynhaliwyd Sioe Flynyddol Cwmsychpant a'r Cylch ar gaeau Waun, Rhydowen drwy garedigrwydd Mrs Ella a Vernon Davies. Y flwyddyn yma roedd y tywydd ar ein hochr a chafwyd diwrnod llwyddiannus iawn unwaith yn rhagor. Eleni, roedd yr elw yn mynd tuag at Cyd-Ymatebydd Gwasanaeth Tân Llanbed a braf iawn oedd gweld cynrychiolwyr yno gyda'r Injan Dân lle cafodd y plant gyfle i eistedd ynddi. Codwyd swm sylweddol a fydd yn cael ei drosglwyddo nes ymlaen yn y flwyddyn.

Bu'r Treialon ymlaen yn gynnar iawn yn y bore gan barhau tan yr hwyr ac roedd y cynnyrch a welwyd yn y babel o safon uchel ac yn werth ei weld. Am dri o'r gloch cafwyd araith bwrpasol gan ein llywydd sef Mr. Dennis Davies, Esgairddedwydd, Pontsian. Mawr yw ein diolch am ei rodd haelionnus. Ar ddiwedd y prynhawn cynhaliwyd ein gwerthiant blynyddol llwyddiannus gyda Sion Jenkins a Dewi Jones wrth y llyw. I ddod â diwrnod bythgofiadwy i ben cafwyd cwmni Ffushanti. Daeth cynulleidfâ niferus i wrando a mwynhau eu perfformiadau arbennig.

Rhestr enillwyr y cwpanau:

**Treialon Cŵn Defaid** - Cenedlaethol Agored – E L Morgan gyda Glyn; **Nofis Cenedlaethol** – E L Morgan gyda Jill; **Agored De Cymru** – E L Morgan gyda Glyn; **Nofis De Cymru** - E L Morgan gyda Jill. **Gwinoedd** – Megan Richards, Brynderi, Aberaeron; **Cyffeithiau** – Lloyd Edwards, Maesceio, Penrhyncoch; **Coginio** – Wendy Davies, Caerwenog, Penffordd [gweler llun ar y chwith]; **Gwaith Llaw** – Joan Jones, Llainwen, Llanbed; **Creffft** – Dai



Davies, Brynerw, Ciliau Aeron; **Ffyn** – Gwynfor Williams, Brynawel, Llanddeusant; **Ffotograffiaeth** – Wendy Jenkins, Hafan Y Cwm, Cwmsychbant; **Arlunio Plant** Bl. 2 a thano – Alaw Jones, Ysgol Cwrtnewydd; Bl. 3 a 4 – Gethin Morgans, Ysgol Cwrtnewydd; Bl. 5 a 6 – Edward Furlong, Ysgol Cwrtnewydd; **Adran Plant 8 a thano** – Dafu Tom Jenkins, Sarnicol, Capel Cynon; **9 a than 12** – Ela Haf Jenkins, Sarnicol, Capel Cynon; **12 a than 17** – Meinir Davies, Caerwenog, Penffordd [gweler llun ar y chwith]; **Adran Blodau** – Sara Humphreys-Jones, Frongelli, Alltyblaca; **Celfyddyd Blodau** – Rita Dipple, Rallt, Cwmsychbant; **Cynnyrch Gardd** – Aeron Davies, Llainffynnon, Cribyn; **Adran Ceffylau** – Phillip Jones,

Penlon, Gorsgoch; **Adran Ceffylau Plant** – Ela Haf Jenkins, Sarnicol, Capel Cynon; **Adran Defaid** – Williams, Blaenwaun, Talley; **Taleb gwerth £25** – Anwen Jones, Blaenblodau, New Inn.

Dymuna pwyllgor Sioe a Threialon Cŵn Defaid Cwmsychpant ddiolch yn fawr iawn i bawb am bob cyfraniad a chymorth a dderbyniwyd i wneud sioe eleni eto yn un llwyddiannus.



Heledd Jenkins, Llysfaen Uchaf, Llanwnnen gyda'i Oen Swci buddugol.



Pencampwr Adran y Ceffylau oedd Eboles 3 oed o eiddo J E Jones, Cwrtnewydd ond yn cael ei harddangos gan Phillip Jones.

### Priodas Dda

Llongyfarchiadau i Osian Potter, Rhoslynw a Tina Thomas ar achlysur eu priodas yng Nghapel Troed-y-rhiw, Cribyn yn ystod yr Haf. Pob dymuniad da iddynt eu dau.

### Deugain Oed

Yn ystod mis Awst dathlodd Mrs Wendy Davies, Caerwenog a Mrs Nia Pollock, Brynmeddyg eu penblwyddi yn 40oed – gobeithio yr oedd y dathlu wrth eich bodd!!

### Ysgol Sul Capel-y-Cwm

Ar ddiwrnod olaf mis Gorffennaf aeth trip blynyddol Ysgol Sul Capel-y-Cwm lawr i Techniquet a'r Bae

tra bod y 'ladis eraill' allan yn y dre yn siopa! Yna yn ystod y prynhawn aethpwyd nôl i dreulio rhai oriau ar draeth Porthcawl. Cafwyd amser da yno a'r plant yn treio tymheredd y dŵr allan!! Stopiwyd yn Cross Hands ar y ffordd adre am sg lodion.

Hefyd yn ystod yr haf, bu rhieni a ffrindiau'r capel yn peintio'r festri. Diolch i chi i gyd am roi o'ch amser.

### Cydymdeimlo

Danfonwn ein cydymdeimlad llwyrâf â Wendy a Sion Jenkins a'r merched, Hafan-y-Cwm ar farwolaeth eu hewythr yn ystod mis Awst.

## Creative Cove

40A Y Stryd Fawr,  
Llanbed, ☎ 421985



Ystod eang o offer swyddfa a deunyddiau celf a chreffft am brisau cystadleuol iawn.

Yn cynnwys:

- Certris inc a deunyddiau cyfrifiaduron eraill, - cardiau cyfarch,
- mapiau arolwg ordnans,
- deunyddiau postio a phacio,
- deunyddiau gwneud cardiau a llyfrau lloffion, - pecynnau crefft i oedolion a phlant, - paent Winsor a Newton,
- padiau brasluniau arlunwyr, cynfas a phapur dyfriliw.

## Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

19 Stryd y Coleg, Llanbed  
Ffon: 423300 Ffacs: 423223  
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob  
gwasanaeth cyfreithiol  
Apwyntiadau hwyr neu  
yn eich cartref



Masnachwyr Amaethyddol

☎ 01570 422540

Melin Mark Lane, Stryd y Bont,  
Llanbedr Pont Steffan

Am holl fwydydd a nwyddau  
amaethyddol, cysylltwch â ni.

## WILLIAMS & BOURNE

CYFREITHIWR.  
COMISIYNNWR LLWON

Trosglwyddiadau a phob  
gwasanaeth cyfreithiol.  
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

**1 Sgwâr Harford,  
Llanbed**

☎ 01570 422206 ☎ 01570423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder,  
Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

## CEGIN GWENOG

Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwygo cyflawn ar  
gyfer pob achlysur

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Engladd
- Digwyddiadau Maes



Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion  
chi - boed yn fawr neu'n fach

Mair Hatcher  
01570 481230 / 07967 559683



Joan Jones, Llanbed a enillodd Cwpan am y marciau uchaf yn yr adran Gwaith Llaw.



# O'r Cynghorau Bro



## Cyngor Bro Llanllwni

Cadeirydd: Emyr Evans; Is-gadeirydd: Tom E Bowen; Clerc: Eirlys Davies; Gohebydd y Wasg: Dewi Davies; Cynghorydd Sir: Linda Evans  
Cyfarfu'r Cyngor ar 12 Gorffennaf 2010.

Dymunwyd adferiad llwyr a buan i Tom Jones yn dilyn ei salwch diweddar.

Cyn gosod y bin ailgylchu poteli byddai'r cyngor Bro yn ymgynghori â thrigolion Bryndulais.

Roedd y trafodaethau cyfreithiol am y Cae Chwarae yn parhau.

Trafodwyd ac ymatebwyd i'r newidiadau arfaethedig i etholaethau cyngorwyr sirol yn Sir Gaerfyrddin.

Cadarnhawyd y bydd cyflymdra o 30mya yn dod i rym ger yr ysgol cyn hir.

Nodwyd bod palmentydd i'w gosod ar hyd rhannau o'r ffordd fawr yn ystod y flwyddyn.

Penderfynwyd gwneud ymholiadau am gadwyn ar gyfer Cadeirydd y Cyngor.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 13 Medi 2010 am 8yh yn y Neuadd Gymunedol.

## Cyngor Tref Llambod

Maer: Rob Phillips; Clerc: Eleri Thomas; Cynghorydd Tref a Sir: Robert (Hag) Harris; Cynghorydd Sir: Ivor Williams

Cyfarfu'r Cyngor ar 24 Gorffennaf 2010 yn Neuadd yr Eglwys, Llanbedr Pont Steffan.

Croesawyd yr aelodau i gyfarfod Cyngor y Dref gan y Maer. Offrymwyd gweddi gan Cecelia Barton.

Yr Heddlu

Nodwyd bod amryw o gerrig beddau wedi cael eu niweidio ym mynwent yr eglwys a bod yr heddlu wedi arestio amryw.

Dylai'r Parth Dialcohol ddod i rym erbyn 2 Medi 2010.

Mae partion yn cael eu cynnal ym Mharc yr Orsedd ganol yr wythnos ac ar benwythnos gan amharu ar ansawdd bywyd trigolion sy'n byw gerllaw.

Roedd y cyngor yn bwriadu gwneud ymholiadau ynglŷn â chytundeb i lanbau cysgodfannau bws.

Penderfynwyd mai gwybodaeth am yr ardal sydd dan awdurdod Cyngor y Dref yn unig y dylid ei roi ar wefan y Cyngor.

## Cyngor Tref Llambod

Maer: Rob Phillips; Clerc: Eleri Thomas; Cynghorydd Tref a Sir: Robert (Hag) Harris; Cynghorydd Sir: Ivor Williams

Cyfarfu'r Cyngor ar 29 Gorffennaf 2010 yn Neuadd yr Eglwys, Llanbedr

Pont Steffan.

Croesawyd yr aelodau i gyfarfod Cyngor y Dref gan y Maer. Offrymwyd gweddi gan Kistiah Ramaya.

Cafwyd anerchiad gan Mr John Morgan o Gymdeithas Mynyddoedd Cambria a sefydlwyd yn 2005 gyda'r bwriad o godi ymwybyddiaeth am ran o Gymru sy'n estyn o Bumlumon i Fynydd Mallaen. Mae'r gymdeithas yn ymgyrchu i gael yr ardal wedi'i dynodi'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a byddai amryw fanteision economaidd a chymdeithasol yn deillio o hynny. Cytunodd yr aelodau gefnogi'r ymgyrch ar yr adeg briodol. Derbyniwyd bod codi melinau gwynt yn anghymharus ag ethos y gymdeithas.

Plismona: Mae'r Parth Dialcohol wedi ei sefydlu ac yn weithredol yn y dref. Diolchodd y Maer i bawb am eu cefnogaeth.

Gwelliannau Sgwâr Harford: Mae'r cynghorwr i gwrdd ar y Sgwâr i asesu pa waith sy'n angenrheidiol.

Nodwyd bod crynodeb o hanes y dref ar gyfer y wefan ar y gweill. Nodwyd mai'r cler, fel rheol, oedd yn ymateb i ymholiadau a godid o'r wefan. Nodwyd mai am 7.30yh y byddai cyfarfodydd y Cyngor yn cychwyn yn y dyfodol. Penderfynwyd cynnig cytundeb i lanbau cysgodfannau bws. Cefnogwyd Shelter Cymru a'r Geidiaid. Penderfynwyd gwahodd Curadur Ceredigion i gyfarfod o'r Cyngor.

Byddai'r Maer yn ysgrifennu at Mr a Mrs Huw Jenkins i ddiolch am eu gwasanaeth dros nifer fawr o flynyddoedd yn Ysgol Ffynnonbedr ac i ddymuno ymddeoliad hapus iddynt.

## Cyngor Cymuned Llanwnnen

Cadeirydd: Chris Evans; Clerc: Eirlys Davies; Cynghorydd Sir: Haydn Richards

Cyfarfu'r Cyngor ar 29 Mehefin 2010.

Yn absenoldeb y Cadeirydd oherwydd anhwylder, cymerwyd y gadair am y noson gan yr Is-Gadeirydd Cyng. Chris Evans.

Trafodwyd gohebiaeth gyffredinol, dogfennau dderbyniwyd a rhai materion cynllunio. Dywedodd y Cynghorydd Sir, y Cyng. Haydn Richards, fod Cyngor Sir Ceredigion yn bwriadu darparu culfan ar ffordd Cwm Talgrwn i hwyluso pethau gan fod y ffordd yn gul iawn.

Gan na chafwyd unrhyw ymateb i hysbyseb cyhoeddus Cyngor Sir Ceredigion am y sedd wag ar Gyngor Cymuned Llanwnnen, aethpwyd ati i gyfethol aelod newydd, sef Mr. Aneurin Davies. Gan ei fod yn bresennol ar y noson, cafwyd ateb cadarnhaol ganddo a chroesawyd ef i'r Cyngor yn ei rôl newydd gan y Cadeirydd.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 7 Medi 2010.

# O'r Cynulliad

gan Elin Jones AC

Tymor yr haf, wrth gwrs, yw tymor y sioeau ledled Ceredigion. Yn sicr, sioe fwyaf Ceredigion dros yr haf oedd y Sioe Fawr yn Llanellwedd, neu Sioe'r Cardis fel y daethom i'w hadnabod eleni! Fe dreuliais i'r pedwar diwrnod yn crwydro'r maes ac roeddwn yn falch iawn i weld cymaint o wynebau cyfarwydd yno a chroeso gwresog y Cardis i'w deimlo ym mhobman! Ar faes Sioe'r Cardis, fe ymunais â Gweinidog yr Amgylchedd, Jane Davidson AC, i lansio canllawiau cynllunio newydd fydd yn ei gwneud hi'n haws i godi tŷ yng nghefn gwlad ar gyfer pobl sy'n gweithio yno. Ymysg y rheolau newydd mae yna ganllawiau sy'n ei gwneud hi'n bosib i godi ail dŷ ar fferm er mwyn hwyluso'r broses o drosglwyddo'r fusnes i'r genhedlaeth nesaf. Mae disgwyl i swyddogion cynllunio'r Cyngor ddefnyddio'r canllawiau newydd yn syth ac rwy'n gobeithio y byddwn yn gweld effaith y rheolau newydd yn y dyfodol agos. Yn ystod y Sioe

Frenhinol, fe wnes hefyd lansio Cynllun Cymorth Band-eang newydd Llywodraeth y Cynulliad ar y cyd gyda'r Dirprwy Brif Weinidog, Ieuan Wyn Jones AC. Bwriad y cynllun yw darparu grant o hyd at £1,000 yr eiddo i dai a busnesau ar draws Cymru sydd dal yn methu cael cyswllt â'r rhyngwrwyd fand-eang. Mae modd defnyddio'r grant naill ai fel unigolion i brynu system addas (fel rhyngwrwyd fand-eang trwy loeren) neu gydweithio ar lefel cymunedol i brynu system ddi-wifr ehangach. Os ydych am gael mwy o wybodaeth am y cynllun newydd hwn, mae croeso i chi gysylltu â'm Swyddfa Etholaeth yn Aberystwyth ar 01970 624 516. Yn ychwanegol i'r Sioe Fawr, fe fynychais ddigwyddiadau eraill dros yr haf, gan gynnwys Sioe Dyffryn Teifi, Sioe Aberteifi a'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nglyn Ebwy. Roedd hi'n dda gweld cymaint o gystadleuwyr o Geredigion yn cyrraedd y brig yn y digwyddiadau yma a hoffwn eu llongyfarch ar eu llwyddiannau.

## Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw  
Cyfeiriad

Cod post  
Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET  
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc  
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

			9	2	7
5				9	4
	2	4			6 8
			9 3 1		3
4		7			9
9 4			2 3		
3	6				2
2	8	5			

## Atebion Swdocw mis Gorffennaf:

Llongyfarchiadau i

**Arwel Jones, Penlon,**

**Gorsgoch** a diolch i

bawb arall am gystadlu:

Joan Stacey, Tynwaun,

Ffaldybrenin; Avril

Williams, Y Fedw,

Cwmann; Eurwyn Davies,

Heol-y-Gaer, Llanybydder; Mavis Beynon,

Castle Green, Llambod; John Evans, Rampant Lion,

Capel Dewi; Eirlys Thomas, Awelfa, Llanybydder;

Bethan Williams, Heol-y-Gaer, Llanybydder a Shirley Walker, Heol-y-Gaer, Llanybydder.

4	5	2	8	9	6	3	7	1
3	1	8	7	2	5	4	9	6
6	9	7	4	3	1	8	2	5
5	7	6	2	4	8	9	1	3
8	2	1	3	6	9	5	4	7
9	4	3	1	5	7	6	8	2
1	6	5	9	8	2	7	3	4
7	8	4	5	1	3	2	6	9
2	3	9	6	7	4	1	5	8



# Llanwnnen



Picton Jones gyda'i gywen Bantam Plymouth Rock ac yn ennill y 'Champion Bantam'. Enillodd nifer o wobrau eraill hefyd yn y Sioe Frenhinol.

## Seren Deledu

Pleser bu gwyllo un o drigolion y pentref sef Mrs Ann Jones, Annedd Wen yn rhannu ei chynghorion ar 'Sioe'r Tŷ' yn ystod yr wythnosau diwethaf.

## Sioeau

Llongyfarchiadau i bawb o'r ardal a fu'n llwyddiannus mewn sioeau bach a mawr dros dymor yr Haf.

## Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Elin Mai Thomas, 1 Sycamore Terrace ar ennill gradd BA Anrhydedd 2:1 mewn Addysg Gynradd gyda SAC ym Mhrifysgol y Drindod, Caerfyrddin ac ar ennill Gwobr Addysg y Brifysgol. Pob lwc iddi yn ei swydd ddysgu gyntaf yn Ysgol Comins Coch ym mis Medi. Llongyfarchiadau i'w brawd, Aled Wyn hefyd ar gael ei dderbyn i 'Gôr Only Boys Aloud' dan arweiniad Tim Rhys-Evans a braf oedd ei weld ar y teledu yn perfformio gyda'r Côr mewn cyngerdd o bafiliwn yr Eisteddfod Genedlaethol ddechrau Awst. Llongyfarchiadau i Aled, yn ogystal, ar ddathlu ei benblwydd yn 18oed yn ddiweddar ac ar ennill Gwobr Deilyngdod i astudio Mathemateg ym Mhrifysgol Aberswythy yn yr Hydref. Pob lwc i'r ddau ohonoch.

## Dyweddio

Llongyfarchiadau i Liann Thomas, Bro Cadarn ar ei dyweddïad â Niel.

## Croeso

Croeso cynnes i Mr a Mrs Ken Lewis sydd wedi ymgartrefu yn 'Tŷ'r Meddyg', Llanwnnen; i Eifion a Carol sydd wedi dod i fyw ym Mhant-y-wilco ac hefyd i Dafydd a Sioned Mills a fydd yn ymgartrefu yng Nglennydd, Bro Grannell.

## Priodas Dda

Pob dymuniad da i Dafydd a Sioned Mills yn dilyn eu priodas ddiweddd Gorffennaf.

## Graddio

Llongyfarchiadau i Steffan

Hammond, Llaindelyn, wedi iddo raddio mewn Cyfryngau ym Mhrifysgol Llambled. Pob hwyl i'r dyfodol.

## Llongyfarchiadau

Pob dymuniad da i bawb o'r ardal a fu'n llwyddiannus yn eu harholiadau TGAU a Safon Uwch yn ddiweddar.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Flo a John Williams a Meinir a Pete a'r teulu, Brynamlwg ar golli mam, mamgu a hen famgu annwyl ar ddechrau mis Awst sef Mrs Edith Whitfield, Dolgerdd, Talgarreg.

Cydymdeimlir yn ddwys â Geraint a Kim Williams a'r teulu, Tynllyn ar golli modryb a oedd yn byw yn Nhalsarn.

Cydymdeimlir hefyd â Mrs L. Anne Jones, Penllain ar farwolaeth ei brawd, Sam yn Llambled ar ddiweddd mis Awst.

## Diolch

Dymuna Ray Lewis, Hafan Llanwnnen ddiolch i bawb am y cardiau, rhoddion a galwadau ffôn dderbyniodd ar achlysur ei phen blwydd yn 80 oed yn ddiweddar.

Dymuna Mrs Flo Williams ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad yn dilyn marwolaeth ei mam yn ddiweddar.

## Pwyllgor Llê - Gwibdaith yr Haf.

Ar ddydd Mercher hyfryd ym mis

Mehefin aeth trigolion y Pentref ar wibdaith ar bws G & M Llambled o amgylch Gorllewin Sir Benfro.

Yn gyntaf cafwyd paned yn Aberteifi yna ymlaen ar hyd yr arfordir trwy Abergwaun ac i Hwlfordd, ymlaen i Saundersfoot cyn dychwelyd am swper ym Mronwydd lle cafwyd croeso cynnes a phryd blasus o fwyd ardderchog.

Ar y bws ar y ffordd adref cafwyd raffl a'r gwobrau yn roddedig gan :- Alice a Dilwyn Davies, Alwyn; Derek a Jean Jones, Alltbylaca; Mrs Magw Hughes, Pantdderwen; Cyng a Mrs Haydn Richards, Lowtre; John ac Avril Jones, Troedybryn; Mrs Shan Davies, Bro Grannell; Gwilym Davies, Llysaeron a Mr a Mrs J T B Williams, Brynamlwg.

Yn enillwyr oedd Mr Aneurin Davies, Tynffynnon; Mrs Alice Davies, Alwyn; Mrs Megan Evans, Bro Grannell; John Jones, Troed y Bryn; Hyw Davies, Ornant a Sis Davies a Catrin Castell Du.

Diolchodd y Cadeirydd Y Cyng Haydn Richards i Mrs Gwen Davies, Mrs Ann Hughes, Gomer Lewis ac Aneurin Davies am eu cyfraniad at drefniant y dydd. A diolchodd Mrs Gwen Davies i'r Cyng Haydn Richards ar drefnu lleoliad y swper ag ati. Cyrhaeddwyd nôl i Lanwnnen yn ddiogel ond yn flinedig ar ôl diwrnod hyfryd.

## Ysgol Llanwnnen

Cynhaliwyd ein Ffair Haf ar nos Wener 2il o Orffennaf. Agorwyd y ffair gan Mrs Ray Thomas, Berllan gynt o Gastell Du. Eleni cafwyd twrnament Pêl-droed i'r bechgyn a merched a'r enillwyr oedd - Bechgyn Ysgol Felinfach a Merched - Ysgol Llanwnnen.

Diolchwyd i Mrs Thomas am ei rhodd hael iawn i'r ysgol ac i bawb am eu cefnogaeth unwaith yn rhagor eleni.

Ar ddydd Gwener, Gorffennaf 9fed aeth trip yr ysgol. Aeth CA1 i Fferm Folly a CA2 i Barc Heatherton. Gwnaeth pawb fwynhau eu hunain er bod y tywydd yn wlyb yn ystod y bore. Fe alwyd nôl yn San Clêr i gael swper.

Ar ôl gweithio yn yr ysgol

am dros 20 mlynedd fe wnaeth Anona Ebenezer ymddeol o fod yn athrawes Addysg Arbennig ac hefyd gorffennodd Josie Jones ar ôl blwyddyn fel Cynorthwy-ydd.

Yn ôl ein traddodiad rydym yn cefnogi ein sioeau lleol yn ystod yr haf sef Sioe Cwmsychpant, Sioe Gorsgoch ac Eisteddfod Llambled.

Cafodd Steffan Holmes, 3ydd yn Llawysgrifen dan 8 oed yn Sioe Cwmsychpant.

Hefyd ymfalchïwn yn ein cyn-ddisgyblion sydd wedi gwneud yn dda yn arholiadau TGAU, UG a Safon Uwch.

## Capel y Groes

Yn dilyn seibiant dros mis Awst cynhelir gwasanaeth bore dydd Sul, 5ed o Fedi am 10:30y.b Yn ôl yr arfer bydd plant yr ysgol Sul yn mynychu'r gwasanaeth ac yna bydd cyfle i gael te a choffi ar ddiweddd yr oedfa.

**Mae CLONC ar werth yn:**  
**Awen Teifi, Aberteifi**  
**Caxton, Llambled**  
**Compton, Llanybydder**  
**Co-op, Llambled**  
**Eryl Jones, Llambled**  
**Garej Checkpoint, Harford**  
**Glennydd, Cwrtnewydd**  
**Siop Gomerian, Llandysul**  
**Inc, Aberystwyth**  
**J H Williams, Llambled**  
**Lomax, Llambled**  
**Medical Hall, Tregaron**  
**Siop y Bont, Llanybydder**  
**Aeron Booksellers, Aberaeron**  
**Siop Llanybi**  
**Siop y Cennen, Rhydaman**  
**Spar, Llanybydder**  
**Swyddfa Bost, Felinfach**  
**Swyddfa Bost, Llanllwni**  
**Swyddfa Bost, Llanwnnen**  
**Swyddfa Bost, Pontsian**  
**Tafarn Cefnhafod, Gorsgoch**  
**Tafarn Glanyrafon, Talgarreg**  
**t-hwnt, Caerfyrddin**  
**W D Lewis a'i Fab Pumsaint**

## Ffair Ram

Ar Gae Pentref Cwmann

### 11eg Medi 2010

Llywydd: Mrs Iona Reeves, Talgarreg  
Sioe, Cystadlaethau CFFI, Arddangosfa Adar  
Ysglyfaethus, Gwartheg Ucheldir a Defaid  
Prin, Bar, Coits ac atyniadau eraill.



### Arddangosfa Hen Beiriannau

Defaid a nwyddau i fewn rhwng 10 a 11.30 y bore. Beirniadu yn dechrau am 12 o'r gloch.

Ysgrifenyddion:  
Danny Davies 423692, Eiddig Jones 422655

## FISHERS

### ARMS



Bwyd cartref ardderchog nos iau, Gwener a Sadwrn.  
Cwrw traddodiadol. Croeso i awyrgylch Gymreig  
gan Berian a Beverley Wilkins a'u merched.

## Cellan, Llambled

01570 422895

Ymgynghorwyr Yswiriant

## Eryl Jones

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,  
beic modur

Teithio

Cyfrifoldeb



Yswiriant tŷ/  
cynnwys

Fferm a busnes

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,  
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr  
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401

Ffacs: 01570 422562

Authorised & Regulated by The Financial Services Authority



# Yn y Gegin gyda Gareth



## Tymor tynnu tomatos

Ar ôl prysurdeb yr Haf, teimlaf fod naws yr Hydref wedi cyrraedd y gegin wrth gamu'n ôl i gegin 'Clonc'. Mae mis Medi bob amser yn dymor prysur gyda chymaint o lysiau a ffrwythau ar eu gorau ac yn barod i greu jam neu bicyl cartre. Faint ohonom sydd wedi cael llond bol yn llythrennol o frechdanau tomatos. Felly beth sydd gennyf i chi y mis yma yw dŵy resait i greu 'Picyl o'r tomatos'

Felly trowch at y potiau picl wrth greu eich brechdanau.


Hwyl,  
*Gareth.*

TIP – Plicio tomatos. Torrwch groes gyda chyllell ar waelod pob tomato a rhowch mewn powlen. Arllwyswch ddŵr berwedig drostynt a gadewch am 30 eiliad. Arllwyswch y dŵr a tynnwch y croen i ffrwd.

## "Picl Tomatos Cegin Clonc".

### Cynhwysion-

- 1.5 kg o domatos wedi'u plicio
- 500 gm o winwns wedi'u torri'n fân
- 500 gm o afalau 'bramley' wedi'u torri'n fân
- 3 cm o sinsir wedi gratio
- 2 chilli wedi'u torri'n fân
- 2 ewyn o arlleg
- 1 lond llwy de o rawn pupur (Peppercorns)
- 4 cardamon wedi'u torri
- 500 ml o finegr gwyn
- 350 gm o siwgrwr brown meddal
- 2 llond llwy de o hadau mwstard du



### Dull

1. Rhowch y tomatos wedi'u plicio a'u torri mewn sosban gyda'r winwns, afalau, chillis a'r garlleg. Rhowch y cardamon a'r grawn pupur, mewn darn o fwslin, clymchwch, a rhowch gyda'r finegar yn y sosban. Dewch a'r cyfan i'r berw a mud ferwi'r cyfan nes bod y llysiau wedi meddal.
2. Ychwanegwch y siwgrwr a throwch nes fod y siwgrwr wedi toddi. Mud ferwch y cyfan am tua 20 munud nes bod y cyfan wedi lleihau a thewhau. Ychwanegwch yr hadau mwstard, a phupur a halen.
3. Tynnwch y pecyn pupur o'r gymysgedd. Llenwch i botiau wedi'u cynhesu a'u diheintio. Rhowch gloriau ar y potiau a gadewch i oeri. Rhowch y dyddiad a'r enw ar y labeli.

Beth am fwynhau'r picl gyda byrgers neu selsig. Mewn brechdanau, gyda chig oen neu caws ar dost.

## Caws ar dost.

Gwasgarwch y picl ar dost, yna gorchuddiwch â chaws a rhowch o dan y gridell nes bod y caws yn troi yn euraidd.


## Bisgedi

(I'w mwynhau gyda phicl, tomatos a chaws).

- Trowch y ffwrn i 180°C Ffan 160°C Nwy 4.
- Cymysgwch 50gm o geirch,
- 175gms o flawd plaen cyflawn gyda 2 lond llwy de o bowdwr pobi.
- ½ llond llwy de o halen
- 2 llond llwy fwrdd o siwgrwr caster.

Malwch 100gm o fenyn i'r cynhwysion. Ychwanegwch 3 llond llwy fwrdd o laeth a gnewch yn belen o does. Gadewch am tua ¼ awr. Rholiwch a thorwch yn gylchoedd, pobwch ar hambwrdd am tua 12 munud nes eu bod yn euraidd.

Fe gadwant mewn tun cae'dig am tua wythnos.



# MiS y PaPur NewYdd

## Colofn Dylan Iorwerth

### Cau siop ac agor cyfrol

Mae yna un newid ar y stryd fawr yn Llanbed. Erbyn i Clonc ymddangos, mi fydd Siop y Smotyn Du wedi cau.

A hithau'n weledigaeth i Goronwy a Betty Evans, roedd yr ysgrifen ar y mur o'r funud y dywedson nhw ym mis Mehefin eu bod eisio rhoi'r gorau i'w rheoli yn yr haf, ar ôl 13 blynedd o lafur cariad.

Ar ei hanterth, roedd hi'n siop fach fywiog, groesawgar a mawrion fel Graham Henry – hyfforddwr Cymru a, bellach, y Teirw Duon – wedi bod yno'n arwyddo llyfrau.

Eiddo'r Undodiaid oedd hi – er mai Goronwy a Betty oedd wedi ei gyrru yn ei blaen gyda chefnogaeth gwirfoddolwyr o'r tu allan i'r enwad yn ogystal ag ynddo – a Chymdeithas Undodiaid Deheudir Cymru a wnaeth y penderfyniad i gau.

Yn drist y gwnaethon nhw hynny. Er bod Goronwy a Betty wedi cynnig ailafael, fe ddaeth y newyddion hynny ar ôl y penderfyniad i gau. Ac nid eu hymddeoliad posib nhw oedd yr unig her o flaen y siop fach.

Roedd yna sawl rheswm – ychydig iawn o bobol oedd wedi ymateb i'r cais diweddar am wirfoddolwyr; roedd Mary Maesglas hefyd yn rhoi'r gorau i'w gwaith gwirfoddol hir o fod yn drysorydd; gydag ysgolion a phawb arall yn wynebu toriadau, roedd ofn y gallai'r gwerthiant gwmpo.

Roedd wedi cwmpo eisoes yn ystod y misoedd diwetha' a, gyda phethau fel rhenti a chostau eraill yn debyg o godi, roedd union faint yr incwm yn bwysig. Roedd hi'n bwysig hefyd gwneud yn siŵr fod y siop ar agor yn ddigon cyson ac am oriau digon hir ... does dim yn torri calon cwsmer fwy na cherdded ar draws y dre' i brynu rhywbeth a chael fod y siop ar gau.

Y teimlad yng nghyfarfod y Gymdeithas oedd bod angen cynllun busnes os oedden ni am aildechrau - sicrwydd o ddigon o wirfoddolwyr, trysorydd newydd, sicrwydd bod y fasnach yno ac, yn fwy na dim efallai, cynllun i wneud yn siŵr bod modd parhau'n llwyddiannus pan fyddai Goronwy a Betty yn rhoi'r gorau iddi'n derfynol.

Mae angen siop lyfrau yn Llanbed. Mae'n rhyfedd meddwl bod tref brifysgol heb siop lyfrau newydd lewyrchus ... yn Gymraeg na Saesneg ... nid oherwydd llyfrau academiaidd sy'n haws eu cael tros y We, ond oherwydd y mwynhad sydd i'w gael o hyd o fynd i mewn i siop a chwilota, heb wybod yn iawn am beth.

Un enghraifft dda i fi ydi Palas Print yng Nghaernarfon. Er bod ganddi gasgliad ardderchog o lyfrau difyr a gwahanol yn Saesneg, mae'r awyrgylch yn gwbl Gymraeg ac, yn naturiol, mae'r llyfrau a'r disgiau Cymraeg yn cael lle cwbl amlwg. Ond mae hi'n siop gymdeithasol, lle mae modd cael paned ac mae yna ddigon o le i ddilyn eich trwyn.

Os daw siop felly i Lanbed rhyw dro, mae yna un llyfr y baswn i'n licio'i weld ar y silffoedd – casgliad o waith Huw Allt Goch. Mae ganddo fo ddigon o stwff da i lenwi sawl cyfrol, a hwnnw'n fath prin o sgrifennu bellach, yn tynnu maeth o dreftadaeth darn arbennig o dir.

Dyna oedd neges yr ysgrif bortread yr enillodd arni yn Eisteddfod Genedlaethol Blaenau Gwent – portread byw a chraff o'r Prifardd John Roderick Rees ... neu'n hytrach Jac y Plow. Mae'n werth agor y Cyfansoddiadau er mwyn honno'n unig.

Nid bywgraffiad na chatalog o lwyddiannau sydd mewn ysgrif bortread. Dewis a dethol yr hyn sy'n cael ei ddweud ydi llawer o'r gamp greadigol - fel tynnu llun o rywun, gyda darn arwyddocaol o gefndir, a'r golau'n taro ar ei wyneb o ongl arbennig.

Sôn y mae Huw am wreiddioldeb y bardd o dyddynwr, am ei gynildeb gyda geiriau, am ei deyrngarwch i'w ardal a'i bobol ac, yn fwy na dim efallai, ei deyrngarwch i'w anian ei hun.

Peth arall am ysgrif bortread – maen nhw'n aml yn dweud llawer am y ffotograffydd, yn ogystal â'r dyn yn y llun.



Cymdeithas Cyn-diffoddwyr Tân Llanbed yn trosglwyddo siec o £1,000 i Mrs Deirdre Martin, Rheolwraig Siop Tenovus yn Llanbed gan Gerwyn Jones, Cadeirydd y Gymdeithas mewn noson Bingo yn ddiweddar.



**Cegin Gareth**  
Goodwig  
Llanbedr P.S.  
SA48 7JP  
01570 422 313

*Blodau*  
*Cacennau*  
*Dathliadau*  
*Partïon*



## Clwb Hoci Llanybydder

Cynhaliwyd cinio blynyddol y clwb hoci yn ddiweddar yn Nhafarn Ffostrasol. Edrychwyd yn ôl dros dymor diddorol 2009/10 gan ein bod nawr yn chwarae yng Nghynghrair Mansel Griffiths a'i Fab, De Orllewin Cymru, sef cynghrair sydd yn cynnwys Sir Benfro yn ogystal â thimau hen gynghrair Dyffryn Teifi.

Cafwyd tymor da drwy chwarae 16 gêm, ennill 7, cyfartal 4, colli 5 gan offren yn gydradd bumed yn y tabl. Chwaraewyd sawl gêm agos yn enwedig ar ddechrau a diwedd y tymor. Roedd y gynghrair eleni yn gystadleuol iawn gyda sawl tîm yn herio'r brig.

Yn ystod y tymor chwaraeodd Heledd Wilson (Capten) a Gemma Hope ym mhob gêm a dim ond colli un gêm a wnaeth Angharad Morgan-Jones, Beca Russell (Hands), Carys Wilson a Kelly Davies.

Ar ddiwedd ein tymor aethom ar daith i Fangor a chawsom gêm agos iawn yn erbyn Clwb Hoci Bangor gan ond colli o 5-3. Cawsom lawer o sbort ac mae sawl stori ddoniol ond ni allwn ei hailadrodd! Gobeithiwn fynd ar daith flwyddyn nesaf eto gan ein bod nawr wedi ail sefydlu teithiau y clwb.

Yn ystod y cinio blynyddol cyflwynwyd gwobrau i'r canlynol: Chwaraewraig Ifanc y tîm – Anwen Jones; Chwaraewraig y tîm – Claire Webb; Chwaraewraig mwyaf addawol – Angharad Morgan a Sgorwraig uchaf – Tracy Evans. Y capten ar gyfer y tymor newydd yw Gemma Hope a'r is-gapten yw Heledd Wilson. Mae'r ymarferion wedi ail-ddechrau ac rydym yn cwrdd ger Canolfan Hamdden Llambled bob nos fercher am 6.30 – 8.00. Croseo i aelodau hen a newydd. Os am ragor o fanylion cysylltwch â Gemma Hope 07816 232 941 gemz941@hotmail.com neu Heledd Wilson 07969 124 056 helmel85@hotmail.com



## Rhedeg i godi arian....



Eleri Jenkins, Siân Jones, Wendy Evans, Janet Davies a Carol Rees. Ar Hydref 17 bydd y pump yma yn rhedeg hanner marathon Caerdydd i godi arian tuag at Canolfan Plant Sir Gâr yn ysbyty Glangwili. Os am noddi'r merched cysylltwch ag un o'r pump neu ffoniwch Wendy ar 01570 434 393.



Mae rhai o staff PJE Cyfrifwyr Siartredig a Cyfri Cyfyngedig, Llambled yn ymarfer yn galed at y sialens o redeg Hanner Marathon Caerdydd ar y 17fed o Hydref – o'r chwith i'r dde Rhian Jones, Eleri Rivers, Eleri Thomas, Michelle Jones, Eleri Quan a Beca Russell. Maent yn codi arian tuag at yr elusen Ambiwlans Awyr Cymru, os hoffech wneud cyfraniad at yr elusen hwn yna cysylltwch ar swyddfa yn Stryd y Coleg, Llambled.

## Sarn Helen



Gwynt a glaw oedd y tywydd eleni i Ras Ryngwladol yr Wyddfa ac aeth pump o redwyr Sarn Helen i'r ras, Simon Hall yn gorffen mwen 1 awr 31 munud a 22 eiliad, Dee Jolly 1 awr 38 munud 50 eiliad, Gareth Jones 1 awr 55 munud 25 eiliad, Caryl Davies 1 awr 59 munud 56 eiliad, a Jan Jones 2 awr 25 munud 38 eiliad. Hefyd cystadlodd Rhian Jones yn ras y plant ac yn gorffen yn y trydydd safle.

Y drydedd gyfres Poppit Sands, a Carwyn Thomas yn gorffen mewn 18 munud 26 eiliad, Glyn Price 18 munud 39 eiliad, Andrew Abbott 19 munud 32 eiliad, Michael Davies 10 munud 37 eiliad, Simon Hall 20 munud 49 eiliad, Tony Hall 20 munud 55 eiliad, Haydn Lloyd 21 munud 7 eiliad, Huw Price 21 munud 20 eiliad, Gwydion Williams 23 munud 22 eiliad, Gareth Jones 23 munud 25 eiliad, Mike Palmer 23 munud 48 eiliad, Dee Jolly 23 munud 54 eiliad, Helen Willoughby 24 munud 55 eiliad, Rhian Jones 25 munud 10 eiliad, Caryl Davies 25 munud 13 eiliad, Jan Jones 28 munud 55 eiliad, Gudrun Jones 35 munud 20 eiliad a Allen Watts 52 munud 42 eiliad. Ar ddiwedd y dair gyfres Rhian Jones a Gwydion Williams oedd ar y brig o'r ieuencid a Caryl Davies menywod agored, Helen Willoughby menywod 45 a Tony Hall dynion 50.

Cefnogodd rhedwyr Sarn Helen y ras Tenovus 5K a gafodd ei chynnal yn Llambled, Enillwyd y ras gan Glyn Price 16 munud 4 eiliad, 2il Michael Davies 16 munud 47 eiliad, 4 – Andrew Abbott 17 munud 3 eiliad, 5 – Ruan Austin 17 munud 54 eiliad, 6 – Simon Hall 18 munud 5 eiliad, 7 – Richard Marks 18 munud 13 eiliad, 8 – Tony Hall 18 munud 22 eiliad, 11 – Haydn Lloyd 19 munud 11 eiliad, 12 – Gwydion Williams 19 munud 19 eiliad, 15 – Dee Jolly 19 munud 44 eiliad ac yn gyntaf yn ras y menywod, 17 – Mike Palmer 20 munud 11 eiliad, 19 – Dawn Kenwright 20 munud 25 eiliad, 20 – Gareth Jones 20 munud 35 eiliad, 21 – Helen Willoughby 20 munud 38 eiliad, 24 – Sian Roberts-Jones 21 munud 46 eiliad, 25 – Andrew Edgell 21 munud 40 eiliad, 26 – Rhian Jones 21 munud 52 eiliad, 27 – Caryl Davies 22 munud 27 eiliad, 32 – Jan Jones 24 munud 52 eiliad, 36 – Natalie Jones 27 munud 11 eiliad a Allen Watts 41 munud. Enillwyd y dosbarthiadau eraill gan Michael Davies, Richard Marks, Gwydion Williams, Dawn Kenwright Sian Roberts-Jones a Rhian Jones.

Glyn Price enillodd y ras mwen 49 munud 53 eiliad, gwobr a roddwyd gan y Tywysog Cymru yn Myddfai, 3ydd Carwyn Thomas 51 munud 36 eiliad, 9 – Haydn Lloyd 1 awr 6 eiliad, 15 – Gareth Jones 1 awr 7 eiliad 25 munud, 18 a 2il menywod agored – Caryl Davies 1 awr 9 munud 09 eiliad. Yn ras y plant o dan 14 oed Ffion Quan gipiodd y wobwr gyntaf.

Nos Sadwrn roedd ras y Maer yn Aberteifi, Glyn Price 37 munud 14 eiliad, cyntaf dynion 40, Gethin Jones 40 munud 14 eiliad, Gareth Jones 46 munud 13 eiliad, Sian Roberts-Jones 2il menywod agored 48 munud 25 eiliad, Gwydion Williams 49 munud 25 eiliad, Jan Jones 2il menywod 45, 56 munud 8 eiliad, a dydd Sul 10K Goodwick a Tony Hall yn gyntaf dynion 50, 40 munud 36 eiliad, Simon Hall 42 munud 38 eiliad, Dawn Kenwright cyntaf menywod 45, 45 munud 12 eiliad, Gwydion Williams 45 munud 38 eiliad, ac Allen Watts cyntaf dynion 70 lawr 27 munud 8 eiliad. Hefyd bu Caryl Davies yn cystadlu yn Y Fenni yn ras mynydd Sugar Loaf a gorffennodd mewn 1 awr 19 munud.

Bu plant y clwb yn cystadlu yn ddiweddar ar drac yn Castell-Nedd, 800 medr o dan 11 oed a Grace Page yn gorffen yn y drydedd safle mewn 3 munud 13 eiliad, ac 800 medr dan 13 2il Caitlin Page 2 munud 46 eiliad, a 3ydd Ffion Quan 2 munud 47 eiliad.

Dydd Sadwrn roedd ras yn erbyn y trê yn Towyn a dau rhedwyr Sarn Helen yn trechu'r trê! Yn y rotary challenge ras o 14 milltir, Mark Dunscombe yn gorffen o flaen y trê mewn 1 awr 44 munud, y trê yn dod i mewn 1 awr 47 munud, a Caryl Davies 2 awr 07 munud, a Gudrun Jones 2 awr 54 munud. Hefyd cystadlodd Gwydion Williams yn y quarry challenge 10k a gorffen mewn 45, a saith munud o flen y trê. Ambell waith mae y rhedwyr gyda fwy o stêm na'r trê!!

Mae un o redwyr y clwb sef Caryl Davies wedi cael ei dewis i gystadlu ar rhaglen S4C '10 Jonathan' a fydd ar y teledu o ddechrau mis Medi, mae y rhaglen yn chwylio am y ferch a bachgen mwya' ffit yn Cymru! Cawn weld beth yw ffitrwydd Caryl!!



Tîm pel-droed Llanbedr Pont Steffan o dan 15 wedi ennill Cyngrair De Ceredigion.



# Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne

## Ceredigion, Aberteifi, Cardigan

Mae dolen gyswllt seml ond diddorol rhwng y tri enw, Ceredigion ac Aberteifi a Cardigan.

Ceredigion yw'r enw cynharaf ar hen deyrnas Ceredigion: ffiniau'r hen deyrnas hon oedd afon Dyfi, afon Teifi a mynydd-dir Elennydd sef blaenddyfroedd Elan, Hafren, Teifi, Gwy a Thywi. Mae'n bur debyg y dylid tarddu Elennydd o 'elain', sef 'ewig', a'r terfyniad '-ydd' sy'n dynodi tiriogaeth. Mae'r un terfyniad yn digwydd ym Meirionnydd 'tiriogaeth Meirion'. Ystyr Elennydd felly yw 'tiriogaeth ewig'.

Ffurf Seisnigedig ar Ceredigion yw 'Cardigan'; roedd hwnnw'n cyfeirio'n wreiddiol at y ganolfan weinyddol a gwleidyddol a sefydlwyd i'r gogledd o afon Hirwen. Mae Aberteifi'n cyfeirio at safle'r dref ar aber afon Teifi; glynodd y Cymry at yr enw hwnnw. Er y drydedd ganrif ar ddeg bu Aberteifi/Cardigan yn ganolfan o bwys mawr am sawl canrif cyn ildio'r flaenoriaeth i Aberystwyth ac, yn ddiweddarach, i Aberaeron.

Mae'r enw Ceredigion yn darddair o'r enw personol Ceredig a'i ystyr yw 'tir Ceredig'. Gorchwyl anos o lawer yw egluro pwy yn union oedd Ceredig. Yn ôl traddodiad sy'n estyn yn ôl i'r nawfed ganrif, honnir bod Ceredig yn llywodraethu Ceredigion ac yn un o feibion Cunedda. Ef yw'r arweinydd o'r Hen Ogledd a gaiff y clod am yrru'r Gwyddelod o ogledd a gorllewin Cymru. Cunedda, yr arwr hwn o'r bumed ganrif, a sefydlodd linach frenhinol Gwynedd. Mae amryw haneswyr cyfrifol yn wfftio dilysrwydd y traddodiad am Gunedda yn llwyr ond mae eraill yn amddiffyn y traddodiad yn frwd. Yr hyn y gellir ei ddweud â sicrwydd yw bod Ceredigion, Edeirnion a Gwrtheyrnion – ac enwau rhanbarthau eraill yn ogystal – wedi tarddu o enwau personol: Edeirnion o Edern, Gwrtheyrnion o Gwrtheyrn. Gellid cysylltu'r enw Ceredig â 'caru' neu 'câr'.

Erbyn y 13g. roedd yr hen diriogaeth a elwid yn Geredigion wedi ei threfnu'n sir o'r enw Cardiganshire ac a elwid yn Gymraeg yn Sir Aberteifi. Ni ddiflannodd yr hen enw, sef Ceredigion, yn llwyr, sut bynnag. Ond bu rhaid i Theophilus Evans (1693-1767) yn ei lyfr difyr ar hanes cynnar y Cymry, Drych y Prif Oesoedd, egluro mai 'Rhandir Aberteifi' oedd 'Ceredigion'. Sir Aberteifi oedd yr enw a ffynnodd, a ffynnu tan ail hanner yr ugeinfed ganrif pan adferwyd y ffurf Ceredigion gan Bwyllgor Ffydd y sir.

Yn 1972 cyhoeddodd Peter Thomas, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y dylid mabwysiadu enwau'r hen wledydd ar gyfer yr unedau gweinyddol newydd a ddaeth i fod yn sgil ad-drefnu llywodraeth leol. Ffurfiwyd sir newydd Dyfed yn 1974 – a Cherdigion yn un o ddosbarthau'r sir newydd hon. Daeth Dyfed i ben yn 1996 ac argymhelliad David Hunt, Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd, oedd mai Cardiganshire/ Sir Aberteifi y dylid galw'r sir newydd a oedd â'r un ffiniau â'r hen sir a fodolai cyn 1974. Tynnodd Hunt nyth cacwn am ei ben a phenderfynodd y cynghorwyr lleol mai Ceredigion oedd eu dewis enw nhw ar y sir newydd. Cyn y gallai hynny ddigwydd yn gyfreithlon rhaid fyddai i William Hague, yr Ysgrifennydd Gwladol newydd, amenio'r trefniant. Ac fe wnaeth Hague gymaint â hynny o leiaf.

Dyna sefyllfa anniddefol: gwleidydd o Sais yn gorfod amenio awydd y Cymry i roi enw ar ddarn o'u gwlad nhw eu hunain.

Y tro nesaf byddwn yn ystyried yr enwau Malláen a Machynys.



## Alec Page Gof



Gwaith metal o safon  
i'r tŷ a'r ardd.

*Dewch i drafod eich syniadau.*

Yr Efail, Barley Mow,  
Llambled.

01570 423955

## WILLIAMS

CONTRACT SERVICES CYF

Peiriannau Hirio, Peirianwyr  
Cyffredinol, Gwaith Sylfaen,  
Menage, Tirlunio, Garddio,  
Ffensio, Adeiladu a Gwaith  
Cynnal a Chadw

Symudol: 07896747951

Ffôn: (01559)362575

Ffacs: (01559)363555

Tŷ Mari, Heol Horeb,  
Llandysul SA44 4JN

e-bost: sales@williamscontractservices.co.uk

Y we: www.williamscontractservices.co.uk

## T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

01570 423921

07867 945174

## CANOLFAN ADDURNO

AA

A

Dewis arbennig o bapur, paent ac  
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a  
phwerus, Polion a thraciau llenni,  
gwasanaeth torri allwedd i  
pheiriannau cymysgu paent  
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.


3 Stryd y Bont

Llanbedr Pont Steffan

01570 423156

## Cludfwyd Indiaidd

# NEHAR



Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.

15% o ostyngiad  
ar archebion dros £10.00.

Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o  
weithio mewn sefydliad indiaidd.

10 Stryd y Bont, Llambled

01570 422893 / 422175

# Pencarreg

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Dafydd a Rachael Thomas, Dolwar-fach ar enedigaeth ei merch fach, Annie Victoria ar yr ail ar bymtheg o Fai. Pob hapusrwydd i chwi am y dyfodol yng nghwmni eich merch fach.

## Radio Cymru

Diddorol oedd gwrandao ar drafodaeth rhwng y gyflwynwraig Nia Roberts a Meleri Mair Thomas, Dolgwm-Uchaf, athrawes Gelf a Chymraeg oedd yn cynrychioli Coleg Llanymddyfri yn sôn am "Etiquette week". Mae hyn yn golygu hybu ymddygiad moesgrar y coleg ac mewn bywyd yn gyffredinol.

Rhai pwyntiau a gyfeirwyd atynt oedd y pwysigrwydd o sut mae dangos parch yn y ffordd gywir yn cyfrannu tuag at ddyfodol yr unigolyn hynny. Trafodwyd sut roedd y coleg yn paratoi disgyblion y chweched dosbarth gyda'u sgiliau cyfweiliadau, gan hybu eu hunan hyder a'u paratoi ar gyfer llwyfan bywyd.

Soniwyd hefyd at elfen ysgafn o'r holl baratoi, mor ddoniol oedd gweld bechgyn 6 troedfedd, aelodau o'r tîm rygbi yn ymarfer gosgediddrwydd trwy gerdded yn urddasol gyda phentwr o lyfrau ar eu pennau yn ogystal â gweld y brif-ferch a'r prif-fachgen yn gweini adeg prydiau bwyd. Diddorol iawn Meleri Mair.

## Penblwydd Arbennig

Yn ystod mis Awst dathlodd Mrs Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf benblwydd arbennig.



## Carnifal

Roedd diwrnod Carnifal Llanybydder eleni yn ddiwrnod i'w gofio i Jac Evans, Berllandeg a'i gyfnither Manon Williams, Muriau Gwyn. Jac oedd y 'Prince Charming' a Manon yn forwyn. Yn y llun hardd yma gwelir Jac a Manon yn eistedd ar bwys eu gilydd gyferbyn i Nia Thomas, morywn a'r 'fairy queen' sef Hana Jones. Yn y sedd flaen mae gyrrwr y trap ac hefyd Brenhines y Carnifal sef Siân Carmody. Hefyd, mae llywyddion y dydd sef Mr a Mrs Oriel Jones a Mrs Joy Williams, brenhines gyntaf yn 1961. Mae'n amlwg wrth edrych ar y wên sydd ar eich wynebau eich bod wedi mwynhau'r profiad yn fawr iawn.



# Gorsgoch

## Priodas Ruddem

Llongyfarchiadau i Gwilym a Mair Jenkins, Glynmeherin ar ddathlu eu Priodas Ruddem yn ystod yr haf.

## Gwellhad

Braf yw gweld Wyn Morgans, Pensarnau adref o'r ysbyty ar ôl llaw driniaeth yn ddiweddar.

Hefyd gwellhad buan i'w wŷr Daniel, Glwydwern yn dilyn ei lawdriniaeth yntau.


## Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Briallt Williams, Hafod y Gors ar basio ei arholiad Gradd 1 theori gydag anrhydedd yn ddiweddar. Da iawn ti.

Llongyfarchiadau i Cari Thomas, Ffynnonrhys ar ganlyniadau TGAU ardderchog. Pob lwc i'r dyfodol.

## Llongyfarchiadau

Croeso cynnes i Elen Mair i'r byd sef merch fach i Ceinwen a Dorian, Llys Gwenog, wyres fach i Irena a Tony Sisto, Blaenau Gors.



Gethin Morgans, Glwydwern yn ennill y 'Best Sheep Handler' i blant ysgolion Cynradd yn Sioe Gorsgoch.

## Clwb Clonc

### Medi 2010

£25 rhif 229 :

Delfryn James,  
Y Fron, Heol y Bont, Llambled

£20 rhif 99 :

Dylan Davies,  
1 Tynffordd, Rhydybont,  
Llanybydder

£15 rhif 454 :

John Warmington,  
Falkland, Heol y Bryn, Llambled

£10 rhif 135 :

E H Evans,  
Nirvana, Cwmann

£10 rhif 123:

Mrs Nans Evans,  
Dolhardd, Drefach

£10 rhif 74 :

Mrs Betty Davies,  
Bryncastell, Heol Llanfair,  
Llambled

## Cymdeithas Amaethyddol Cylch Gorsgoch a Chlwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog

Ar ddydd Sadwrn yr 21ain o Awst 2010 cynhaliwyd Sioe Gorsgoch a C.Ff. I Llanwenog ar gaeau Glwydwern, Gorsgoch drwy garedigrwydd Elfyn a Sharon Morgans, Glwydwern. Mae 30 mlynedd wedi mynd heibio bellach ers cynnal y sioe gyntaf yng Ngorsgoch ac o ganlyniad i ymroddiad ac ymrwymiad aelodau'r pwyllgor a chefnogwyr lleol gallwn fod yn ffyddiog fod dyfodol y sioe yn ddiogel.

Er gwaethaf tipyn o law yn y bore fe welwyd peth heulwen yn ystod y dydd, ac er mawr foddhad i aelodau'r pwyllgor a chefnogwyr y sioe, cafwyd llu o geisiadau ym mhob adran yn y babell yn ogystal ag adran y defaid a'r ceffylau. Roedd y gwaith o feirniadu adran y gwartheg biff a godro yn cymryd lle yn yr wythnos cyn y sioe, a pleser yw cofnodi ei fod unwaith eto wedi bod yn lwyddiant. O ganlyniad i'r tywydd gwlyb ni fu'n bosib i gynnal y mabolgampau i'r plant yn ystod y prynhawn nac ychwaith y rownderi yn yr hwyr. Serch hynny bu nifer o'r plant yn cael hwyl yn peintio wynebau yn ystod y dydd, a daeth tyrfa sylweddol i fwynhau Newshan yn canu yn y nos. Braf oedd cael cwmni Mr a Mrs Geraint Evans, Rhydsais ein llywyddion a diolch i Geraint am y geiriau pwrpasol ac i'r ddau am eu rhodd hael. Fe fydd cyfran o elw'r sioe yn cael eu rannu rhwng Uned Cemotherapi ac Uned Pelydr -X a Sganio Ysbyty Bronglais. Diolch i bawb am eu cefnogaeth. Dyma restr o'r prif wobrau yn y babell ac ar y cae. Marciau uchaf ym mhob adran yn y babell – **Cynnyrch Gardd** – Aeron Davies, Cribyn; **Coginio** – Gwyneth Morgans ac Eleri Davies, Gorsgoch; **Gwinoedd** – Megan Richards, Aberaeron; **Cyffraith** – Pamala Davies, Cwrtnewydd; **Gwaith Llaw** – Sally Rees, Llanarth; **Blodau** – Andrew Davies, Llandysul; **Cystadlaethau o dan 18** – Gwawr Hatcher, Gorsgoch; **Cystadlaethau o dan 26** – Elin Jones, Maesycrugiau; **Cystadlaethau i blant ysgol Gynradd** – Iwan Evans, Blaencwrt; **Ffotograffiaeth** – Luned Jones, Blaencwrt. **Ysgol â'r marciau uchaf yn yr adran arlunio yn ennill tarian her Cyngor Cymuned Llanwenog** – Ysgol Cwrtnewydd. **Cwpan Her Blaencathal am focs o gynnyrch gardd** – Bryan Corsie, Blaencwrt. **Marciau Uchaf ymhob adran yn y babell yn ennill cwpan her Malcolm Fuller** – Aeron Davies, Cribyn

Canlyniadau'r cae: **Defaid Llanwenog** - Pencampwr – Huw Evans, Alltgoch; Is – Bencampwr – Huw Evans, Alltgoch. **Gwobr Cymdeithas Defaid Llanwenog** – Huw Evans, Alltgoch. **Defaid Speckled** - Pencampwr – Jones, Blaenblodau. Is – Bencampwr – R & S Jones, Meinigwynion Mawr. **Defaid Continental** - Pencampwr - Huw a Bronwen Evans, Glantrenfach. Is – Bencampwr - Huw a Bronwen Evans, Glantrenfach. **Unrhyw frid "Lowland" arall** - Pencampwr – Elfyn Morgans, Glwydwern. Is – Bencampwr – Hefin Jenkins, Cathal. **Unrhyw frid mynyddig arall** - Pencampwr -R & S Jones, Meinigwynion Mawr. Is – Bencampwr – Kevin Davies, Llwynfedw. **Oen i'r cigydd** - Pencampwr - J.Jones, Penrheol. Is – Bencampwr - J.Jones, Penrheol. **Pencampwr yr adran ddefaid** – Huw a Bronwen Evans, Glantrenfach. **Young handler** – Gethin Morgans, Glwydwern. **Barnu Wyn Tew C.Ff.I Dan 18** – Sioned Fflur Evans, Glantrenfach. Dan 26 – Heilin Thomas, Waunlluest. Marciau Uchaf – Heilin Thomas, Waunlluest.

Ceffylau - **Adran y Cobiau** - Pencampwr – Dai Evans, Aberaeron. Is – Bencampwr – Arwel Jones, Gorsgoch. **Adran farchogaeth** - Pencampwr – Mary Muir, Talgarreg. Is – Bencampwr – Emily Farr, Gorsgoch. **Marciau uchaf yn yr adran Novelties** – Holly Cooper, Gorsgoch. **Pencampwr yr adran geffylau** – Mary Muir, Talgarreg.

**Gwartheg Biff** - Pencampwr – Geraint Williams, Tynllyn. Is Bencampwr – Berwyn Hughes, Cwmhendryd.

**Gwartheg Godro** - Pencampwr – Andrew Davies, Abertegan. Is Bencampwr – Andrew Davies, Abertegan.



Pencampwr y Pencampwyr yn adran y defaid oedd Dafad Charollais o eiddo Mr a Mrs Huw Evans a'r teulu, Glantren Fach, Llanybydder. Cyflwynwyd y cwpan iddynt gan y Llywyddion Mr a Mrs Geraint Evans i Sioned Evans.

## Ceris Morgan yn trin gwallt yn eich cartref



**Tori a sychu, steilo a lliwio, cwilo a gosod gwallt ar gyfer achlysuron arbennig.**

Prisau rhesymol.  
**Ffoniwch: 07738 492613**  
Cwmann  
ond yn barod i deithio'r ardal.

## Cefn-hafod

### Gorsgoch

01570 434238



Dewch i fwynhau mewn awyrgylch Gymreig a chartrefol. Cewch ddewis eang o fwyd cartref blasus a chwrw da. Cinio dydd Sul o 12 tan 2:00y prynhawn hefyd.

*Croeso cynnes oddi wrth Geraint, Eiddwen a'r teulu.*

Arbenigwyr mewn bariâu symudol at unrhyw achlysur allanol a dawnsfeydd ysgubor.

## Mwnci ffwnci



Brodweithio a Phrintio Dillad.  
Darparu Dillad Gwaith a Hamdden.

**Sioned Green**  
a **Mared Jones**  
Nantgwyn,  
Heol Llanfair  
Llambled

01570 423135

07811917799 /

07968821035

mwnciffwnci@hotmail.com

## COMPASS OFFICE SUPPLIES

Am eich holl ddeunydd swyddfa

Uned 19, Stâd Ddiwydiannol  
Llambled, Heol Tregaron,  
Llambled.

01570 422955  
01570 422232



## Toriad Taclus

Mae Toriad Taclus  
Wedi newid siop  
Mae ar Heol Caerfyrddin  
Ger y Sgwâr Top

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425





Tyngrug-Ganol,  
Cwmsychpant,  
Llanybydder.



Annwyl Ffrindiau

Helo blant, sut ydych chi? Gobeithio eich bod wedi mwynhau gwyliau'r haf ac wedi ymweld ag ambell i sioe leol ac yn barod ar gyfer mynd nôl i'r ysgol i weld eich ffrindiau i gyd. Efallai bod rhai ohonoch wedi cael llwyddiant mewn ambell i sioe wrth dynnu lluniau ac ati. Da iawn chi.

Wel 'dw i wedi bod yn brysur iawn dros yr haf yn pacio fy mhethau ar gyfer symud i mewn i fy nghartref newydd sbon. Erbyn hyn mae popeth yn ei le ac rwy'n setlo lawr yn dda.

Mae'n amlwg bod nifer fawr ohonoch wedi bod yn brysur iawn yn lliwio lluniau arbennig ar fy nghyfer ac mae clod mawr yn mynd i Owen Heath o Lamed am lun arbennig. Ond yn dod i'r brig y mis hwn mae Owen Llŷr Davies, Delfryn, Cnw-c-y-Lili, Cei Newydd. Llongyfarchiadau mawr i bawb a chofiwch fynd ati i liwio llun fy nghartref newydd y mis hwn a'i ddanfôn ataf erbyn dydd Llun, Medi 27ain.

Hwyl am y tro,



Enillydd  
y mis!

Owen  
Llŷr  
Davies



Enw:

Cyfeiriad:

## Calendr Clonc

I bawb dan 18 oed



### Cyfle i Ffotograffwyr Ifanc

Bwriada Clonc gyhoeddi Calendr ar gyfer y flwyddyn 2012 gan gynnwys llun gwahanol i bob mis. Y gobaith yw y bydd y calendr ar werth yn nhymor yr Hydref 2011.

Yn wahanol i'r calendr diwethaf a gyhoeddwyd gennym nôl yn yr wythdegau, lluniau lliw cyfoes a gynhwysir y tro hwn. Gofynnwn i bobl ifanc fynd ati i dynnu lluniau gyda'u camerau digidol o olygfeydd yn yr ardal.

Dyma gystadleuaeth ffotograffiaeth fisol. Gofynnir am lun o olygfa yn yr ardal am yr amser hwnnw o'r flwyddyn.

Yn y rhifyn hwn, rhifyn Medi, rydym yn chwilio am luniau'r haf. Ac o'r rhifyn nesaf ymlaen bydd angen lluniau i gynrychioli'r Hydref, Gaeaf a'r Gwanwyn.

Gall y llun fod yn olygfa yn y pentref neu'n olygfa wledig, gall gynnwys anifeiliaid y ffarm neu bobl leol mewn digwyddiad fel carnifal, mart, ffair neu sioe. Anogir chi i fynd ati i dynnu digon o luniau. Bydd hi'n bwysig bod cynrychiolaeth o bob pentref dalgylch Clonc yn y calendr terfynol.

**Rhoddir gwobr arbennig bob mis i'r llun gorau** a bydd panel o Fwrdd Busnes Clonc yn dewis y lluniau mwyaf addas ymhen blwyddyn i'w cyhoeddi yn y calendr.

Wrth gystadlu, bydd pob cystadleuydd yn rhoi'r hawl i Clonc ddefnyddio'u lluniau i'w cyhoeddi yn y calendr. Gwerthir y calendr wedyn er mwyn codi arian i goffrau'r papur bro.

**Derbynnir y lluniau ar ffurf jpg ar ddisg neu e-bost yn unig, heb eu lleihau.** Danfonwch eich disg i Tŷ Cerrig, Cwmann, Llanbedr Pont Steffan, SA48 8ET, neu danfonwch y llun yn uniongyrchol drwy e-bost i [cystadleuaeth@clonc.co.uk](mailto:cystadleuaeth@clonc.co.uk) Dyddiad cau derbyn lluniau'r mis hwn yw: **Dydd Iau 23ain Medi.**



### Cystadleuaeth Calendr Clonc

Llongyfarchiadau i **Luned Medi Jones, Blaenwaun-Ganol, Blaencwrt** am gyflwyno lluniau diddorol iawn o fyd natur y tro hwn ac am ennill y gystadleuaeth hon unwaith eto. Diolch i Luned am fynd i'r ymdrech. Beth am y gweddill ohonoch? Oes lluniau diddorol gennych o ddigwyddiadau'r haf a fyddai'n addas ar gyfer calendr Clonc? Edrychwn ymlaen at dderbyn eich lluniau yn ystod y mis.

### Diolch yn fawr

**DIOLCH** yn fawr i'r **489** sydd wedi ymaelodi â Chlwb Clonc am y flwyddyn 2010 – 2011. Nid yw yn rhy hwyr i ymaelodi. Danfwnch £5 i'r ysgrifennydd mor fuan a phosib. Diolch hefyd i'r gwirfoddolwyr sydd wedi bod o amgylch yn casglu.

Gol

### Diolch yn fawr

Rydym fel swyddogion CLONC am ddiolch i Heiddwen Tomos, Dôl-Mebyd, Pencarreg am fod yn Lincyn Loncyn dros y blynedd diwethaf. Gwerthfawrogu eu chyfraniad yn fawr iawn.

Gol

### Camera ar eich ffôn?

Dyma rif ffôn Papur Bro Clonc - **07837 447122**. Os ydych yn gweld cyfle am lun a fyddai o ddiddordeb i ddarllenwyr Clonc, tynnwch lun gyda'ch ffôn symudol a'i ddanfôn mewn neges destun i'r rhif ffôn uchod.



# Priodasau a digwyddiadau'r haf



Ar 19 Mehefin 2010 yn Eglwys Sant Padarn, Llanbadarn Fawr priodwyd Geraint Pugh, mab Evan ac Anne Pugh, Brynheulwen, Heol Tregaron a Sian Lloyd Evans - merch Mrs Mary Evans a'r diweddar Parch Ceri Evans, Aberystwyth (Llanfair Caereinion gynt). Maent nawr yn byw yn Nhal-y-bont.



Susan merch Mr a Mrs. Tommy Owens, Llambled a Russell mab Mr a Mrs. Gwyn Jones o Llambled a briodwyd ar 23ain Gorffennaf. Cafwyd y wledde ym Mhrifysgol Llambled.



**Angen Sgip?**  
Diwydiannol, Masnachol  
neu i'r cartref.  
Sgip i bob pwrpas  
Rhowch alwad i ni  
ar **01570 421421**

Ffordd Tregaron, Llambled, Ceredigion, SA48 8LT



Carol Thomas, Llanwnnen yn derbyn y wisg las - Urdd Llenor yn Eisteddfod Genedlaethol 2010.



Elin Williams, Cwmann yn derbyn y wisg werdd - Urdd Ofydd Er Anrhydedd.



**CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL**  
**INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS**

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY  
**T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk**

Ydych angen cymorth i gael eich materion ariannol mewn trefn?  
Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:

**Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol a diogelwch incwm, Morgeisi.**

**Gary Davies BSc(Hons), Cert PFS**  
**Beca Hands BSc(Hons), MSc(Hons), Cert PFS, Cert CII(MP)**  
Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl.



Agorwyd Ffair Fwyd Llambled gan Mererid Wigley, Cyflwynydd rhaglen 'Ffermio'. Gwelir hefyd, y Maer y Cyng Robert Phillips a Hilary Downes o Hufen Iâ Aeron Jersey.

**Gorsaf Brawf MOT**

**GAREJ BRONDEIFI**

Heol Llanfair Road, Llambled, SA48 8JX

- \* Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- \* Teiars am brisiau cystadleuol
- \* Ceir newydd ac ail law ar werth
- \* Batris \* Brecs \* Egsost
- \* Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur




**Peiriant Golchi Ceir Poeth**

**01570 422305**  
**07974 422 305**



**YSWIRIANT FUW**

**Yswiriant Fferm, Busnesau, Ceir a Thai**



*Arbenigedd lleol  
Polisiau at bopeth  
Prisiau cystadleuol  
Tawelwch meddwl*

Dewch i drafod eich anghenion gyda

**Alan Jacob 07968 371823 / 01570 481361**  
neu

**Gwion James 07980 608337 / 01570 480623**

Yn swyddfa **Yswiriant FUW, Sgwar y Mart, Llanybydder**

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi sefydlu'r holl aelodau a'i reoli gan Ffederasiwn y Gwasanaethau Ariannol, yng nghyngor ddeddf cyhoeddus i ddarparu'r holl wasanaethau a'u hysbysu.



Lynwen, Heledd a Huw Jenkins, Llysfaen Uchaf yn cipio gwobr gyda'r grŵp o dri o Ddefaid Llanwenog yn y Sioe Frenhinol.



# Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen



**Unawd 6 – 9 oed [cyf]** - 1. Ella Evans, 2. Sara Elan Jones, 3. Nia Beca Jones, 4. Megan Mai Jones, 5. Elin Davies a Nia Eleri Morgans. **Llefaru 6 – 9 oed** - 1. Ella, 2. Nia Eleri; 3. Nia Beca; 4. Sara Elan; 5. Elin.



**Llefaru 9 – 12 oed [cyf]** - 1. Tomos Jones, Llambled; 2. Rhys Davies, Cwmsychpant; 3. Meirion Siôn Thomas, Llambled; 4. Caryl Jacob, Pencarreg



**Unawd 9 – 12 oed [cyf]** - 1 - Charlotte Saunders, Cwrtnwydd; 2 - Meirion Siôn Thomas, Llambled; 3. Rhys Davies, Cwmsychpant



**Unawd ar unrhyw offeryn cerdd [cyf]** - 1. Meirion Siôn Thomas yn derbyn y cwpan oddi wrth Delyth Morgans, Consort y Maer; 2. Rhys Davies, Cwmsychpant; 3. Alpha Jones, Llanybydder; 4. Elin Davies, Cwmsychpant; 5. Tomos Jones, Llambled



**Unawd 12-16 oed [cyf]** - 1. Gwawr Hatcher, Gorsgoch; 2. Meleri Davies, Cwmsychpant; 3. Lowri Elen, Llambled a Ianto Jones, Cribyn [cyd]

**Llefaru 12 – 16 oed [cyf]** - 1. Meleri Davies; 2. Lowri Elen, 3. Gwawr Hatcher.

**Canu Emyn dan 16 oed [cyf]** - 1. Gwawr Hatcher; 2. Meleri Davies; 3. Lowri Elen.

**Unawd ar unrhyw offeryn cerdd gan gynnwys y piano dan 16 oed [cyf]** - 1. Meleri Davies; 2. Gwawr Hatcher; 3. Lowri Elen.

Bydd holl ganlyniadau'r Eisteddfod i'w gweld yn y rhifyn nesaf o CLONC.



Cystadleuydd mwyaf addawol o dan 16 oed yn yr Adran Gerdd – Ianto Jones, Cribyn



Deuawd dan 21 oed a Llefaru i gyfeiliant - 1. Hedydd ac Elliw, Silian



Tlws Ieuencid Celf a Chrefft - Carwyn Davies, Caerwenog, Cwmsychpant



Enillydd y Fedal Ryddiaith - Arwel Emlyn Jones, o Ruthin, Sir Ddinbych